

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Chwefror 2017	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.00	SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 50)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-734 Gwahardd Codi Ffioedd Asiant Gosod ar Denantiaid
(Tudalennau 51 – 59)

2.2 P-05-735 Gwneud y cyfnod sylfaen yn fwy effeithiol ar gyfer ein plant,
darparu mwy o athrawon a dileu y TASau blwyddyn 2.
(Tudalennau 60 – 71)

2.3 P-05-736 Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch
(Tudalennau 72 – 79)

2.4 P-05-737 Achubwch ein bws
(Tudalennau 80 – 84)

2.5 P-05-739 Achub Gwasanaethau TWF
(Tudalennau 85 – 90)

2.6 P-05-740 Deiseb i Warchod Ein Stryd Fawr
(Tudalennau 91 – 101)

2.7 P-05-741 Mae angen Cyfyngiadau Llymach ar Gyfoeth Naturiol Cymru
(Tudalennau 102 – 112)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol



Economi a'r Seilwaith

- 3.1 P-04-539 Achub Cyfnewidfa Glo
(Tudalennau 113 - 115)
- 3.2 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog
Llywelyn
(Tudalennau 116 - 118)
- 3.3 P-05-709 Cylchffordd Cymru
(Tudalennau 119 - 122)
- 3.4 P-05-714 Cynnwys Gorsaf ar Gyfer Mynachdy a Thal-y-bont fel Rhan o
Unrhyw Gynnig ar Gyfer Metro Caerdydd.
(Tudalennau 123 - 124)
- 3.5 P-05-731 Gwerthu Tir a Lonydd Mynediad yn Abercwmboi
(Tudalennau 125 - 129)

Gymunedau a Phlant

- 3.6 P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau
(Tudalennau 130 - 134)
- 3.7 P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynti, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru
(Tudalennau 135 - 136)
- 3.8 P-04-662 Mae'n anodd amgyffred sut y byddai bywyd wedi bod heb fy
Ngweithiwr Cymorth
(Tudalen 137)

Iechyd

- 3.9 P-04-490 Meddyginiaeth Gwrth-retrofeirysol yng Nghaerdydd
(Tudalen 138)
- 3.10 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned
Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog
(Tudalennau 139 - 173)
- 3.11 P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl
Ifanc
(Tudalennau 174 - 187)

Environment and Rural Affairs

3.12 P-05-713 The Wildlife Warriors

(Tudalennau 188 – 191)

3.13 P-05-717 Sefydlu Hawliau Mynediad Cyhoeddus Statudol i Dir a Dŵr

Mewndirol at Ddibenion Hamdden a Dibenion Eraill.

(Tudalennau 192 – 200)

Yr Iaith Gymraeg

3.14 P-04-499 Rhoi Hwb i Gwricwlwm yr Iaith Gymraeg

(Tudalen 201)

3.15 P-05-724 Hawliau i ofal iechyd sylfaenol yn Gymraeg

(Tudalennau 202 – 221)

Gyllid a Llywodraeth Leol

3.16 P-05-726 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

(Tudalennau 222 – 225)

Addysg

3.17 P-05-727 Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion

(Tudalennau 226 – 233)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5 Blaenraglen Waith

6 P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

(Tudalen 234)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-05-734- Gwahardd Codi Ffioedd Asiant Gosod ar Denantiaid.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Shelter Cymru ar ôl casglu 328 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar yr arfer annheg o godi ffioedd asiant gosod ar denantiaid.

Yn gynharach eleni, bu cefnogwyr ymgyrch Shelter Cymru siopa yn gwsmeriaid cudd i asiantau gosod ledled Cymru a chanfuont nad yw mwy na hanner (55%) yn hysbysebu ffioedd ar eu gwefannau fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Canfu'r astudiaeth y gallai tenant dalu rhwng £39.99 a £480 am yr un gwasanaeth, gan ddibynnu pa asiant oedd eu landlord wedi dewis ei ddefnyddio.

Y realiti yw nad oes y fath beth â dewis i ddefnyddwyr gyda ffioedd tenantiaid, ac mae perygl gwirioneddol bod tenantiaid a landlordiaid yn gorfod talu dwywaith am yr un gwasanaeth. Rydym yn credu y dylai Cymru ddilyn esiampl yr Alban a gwahardd ffioedd i denantiaid. Mae'r sector rhentu preifat yn yr Alban yn dal i ffynnu ac mae tri chwarter o asiantau'r Alban yn dweud bod y gwaharddiad heb gael unrhyw effaith, neu wedi cael effaith gadarnhaol, ar eu busnes.

Mae asiantau gosod Cymreig yn mwynhau twf mewn busnes oherwydd Rhentu Doeth Cymru, sy'n annog landlordiaid llai i gofrestru ag asiantau. Fodd bynnag, mae ffioedd gosod gormodol yn gwthio tenantiaid i ddyled a'i gwneud yn fwy anodd i awdurdodau lleol atal digartrefedd. Gweithredwch yn awr i roi bargaen deg i'r nifer cynyddol o rentwyr preifat yng Nghymru.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Abertawe
- Gorllewin De Cymru

Ffioedd asiantau gosod tai

Y Pwyllgor Deisebau | 14 Chwefror 2017
Petitions Committee | 14 February 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-734

Teitl y ddeiseb: Gwahardd Codi Ffioedd Asiantau Gosod ar Denantiaid

Testun y ddeiseb: Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar yr arfer annheg o godi ffioedd asiant gosod ar denantiaid.

Yn gynharach eleni, bu cefnogwyr ymgyrch Shelter Cymru yn gwsmeriaid cudd i asiantau gosod ledled Cymru a chanfuont nad yw mwy na hanner (55 y cant) yn hysbysebu ffioedd ar eu gwefannau fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Canfu'r astudiaeth y gallai tenant dalu rhwng £39.99 a £480 am yr un gwasanaeth, gan ddibynnu pa asiant oedd eu landlord wedi dewis ei ddefnyddio.

Y realiti yw nad oes y fath beth â dewis i ddefnyddwyr gyda ffioedd tenantiaid, ac mae perygl gwirioneddol bod tenantiaid a landlordiaid yn gorfod talu ddwywaith am yr un gwasanaeth. Rydym yn credu y dylai Cymru ddilyn esiampl yr Alban a gwahardd ffioedd i denantiaid. Mae'r sector rhentu preifat yn yr Alban yn dal i ffynnu ac mae tri chwarter o asiantau'r Alban yn dweud na chafodd y gwaharddiad unrhyw effaith, neu ei fod wedi cael effaith gadarnhaol, ar eu busnes.

Mae asiantau gosod yng Nghymru yn mwynhau twf mewn busnes oherwydd Rhentu Doeth Cymru, sy'n annog landlordiaid llai i gofrestru ag asiantau. Fodd bynnag, mae ffioedd gosod gormodol yn gwthio tenantiaid i ddyled a'i gwneud yn fwy anodd i awdurdodau lleol atal digartrefedd. Gweithredwch yn awr i roi bargaen deg i'r nifer cynyddol o rentwyr preifat yng Nghymru.

Y cefndir

Mae'n arfer cyffredin i asiantau gosod tai' yn y sector rhentu preifat godi ffioedd ar ddarpar denantiaid cyn dechrau'r denantiaeth. Mae'r ffioedd hyn fel arfer yn talu costau ceisio geirdaon a thaliadau gweinyddol eraill sy'n gysylltiedig â sefydlu'r denantiaeth. Gall ffioedd

ychwanegol hefyd gael eu codi yn ddiweddarach, er enghraifft, pan adnewyddir tenantiaeth. Mae'n beth cyffredin i landlordiaid hefyd gael amrywiaeth o ffioedd i'w talu ar ddechrau tenantiaeth, a phan gaiff tenantiaeth ei hadnewyddu. Fodd bynnag, mae'r ddeiseb hon yn ymwneud â ffioedd a godir ar denantiaid yn unig.

Mae *Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015* yn ei gwneud yn ofynnol i asiantau yng Nghymru arddangos neu gyhoeddi rhestr o'u ffioedd a thaliadau gosod perthnasol. Mae awdurdodau lleol yn gorfodi'r ddeddfwriaeth hon. Gallant hwy osod cosb sifil o hyd at £5,000 ar asiantau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion. Gall asiantau gosod tai gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn unrhyw gosb sifil.

Nid yw asiantau gosod tai yn yr Alban yn gallu codi ffioedd ar denantiaid yn ychwanegol at y rhent a'r blaendal ad-daladwy wrth sefydlu ac adnewyddu tenantiaethau, neu wrth ganiatáu i rai tenantiaethau i barhau. Mae hyn wedi bod yn wir ers peth amser. Ym mis Tachwedd 2012 eglurwyd y gyfraith a oedd yn bodoli, i wneud hyn yn gliriach.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU, yn [Natganiad yr hydref](#), ei bod yn bwriadu gwahardd asiantau gosod tai rhag trosglwyddo ffioedd i denantiaid yn Lloegr:

The government will ban letting agents' fees to tenants, to improve competition in the private rental market and give renters greater clarity and control over what they will pay. The Department for Communities and Local Government (DCLG) will consult ahead of bringing forward legislation.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru *Ddeddf Tai (Cymru) 2014* yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i asiantau gosod gael trwydded gan [Rhentu Doeth Cymru](#) ac i lynu at [God Ymarfer](#) fel amod eu trwydded. Mae'r Cod Ymarfer yn ailddatgan gofynion cyfreithiol presennol ynghylch arddangos ffioedd y gellir eu codi ar denantiaid yn gyhoeddus, ac mae'n awgrymu rhai meysydd o arfer gorau, fel rhestru unrhyw ffioedd ychwanegol a allai gael eu codi ar y tenant yn y cytundeb tenantiaeth.

Ar [29 Tachwedd 2016](#), yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod gwaharddiad ar ffioedd asiantau gosod "o dan ystyriaeth weithredol", mewn ymateb i gwestiwn gan Leanne Wood AC. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Prif Weinidog bwysigrwydd dadansoddi tystiolaeth o'r Alban ynghylch yr effaith a gafodd gwahardd y ffioedd yno, yn enwedig o ran a yw costau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i denantiaid drwy godi rhenti uwch arnynt. Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn y Cyfarfod Llawn ar [7 Rhagfyr 2016](#) .

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ac wedi cadarnhau ei safbwynt cynharach, gan ddweud:

Rwy'n amharod i ruthro i lunio deddfwriaeth heb astudio'r holl dystiolaeth yn ofalus a meddwl drwy'r canlyniadau posibl yn gyntaf.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Byddai gwelliant gan Blaid Cymru i *Fil Rhentu Cartrefi (Cymru)*, a gyflwynwyd yn ystod y [Ddadl Cyfnod 3](#) ym mis Tachwedd 2015 wedi caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gyfyngu ar y ffioedd y caniatwyd i asiant eu codi am baratoi hysbysiad neu ddogfen o dan y Bil. Gwrthodwyd y gwelliant hwn.

Ar 7 Rhagfyr 2016, yn ystod [Dadl UKIP Cymru](#) ar ffioedd asiantau gosod, roedd y Cynulliad yn cefnogi cynnig a oedd yn cynnwys galwadau ar i Lywodraeth Cymru:

(A) consider how legislation on this subject might work in light of the evidence on the impact of abolition in Scotland and the responses to the consultation in England.

(B) consult with other parties in the Assembly and stakeholders on the best way forward for Wales.

Yn y [Balot Bil Aelod](#) diweddar, a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2017, cynigiodd pum Aelod Cynulliad Ffiliau a fyddai wedi sicrhau camau gweithredu yn y maes polisi hwn. Nid oedd dim un o'r Biliau hynny yn llwyddiannus yn y balot.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-734
Ein cyf/Our ref CS/06110/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

January 2017

Dear Mike

Thank you for your letter of 7 December regarding the Petition the Committee has received from Shelter Cymru requesting the Banning of Letting Agents Fees to Tenants.

I am fully aware of the campaign which is led by Shelter Cymru and the wide support for such a ban amongst Assembly Members. Indeed the spotlight fell on the issue again very recently following the Chancellor's announcement in the Autumn Statement that England would be consulting on introducing a ban early in the New Year.

The Welsh Government is committed to ensuring a fair deal for private sector tenants. Most recently we have introduced the Renting Homes (Wales) Act 2016 and Rent Smart Wales, both of which will benefit tenants. We are very much leading the way in cracking down on rogue agents and landlords and working to raise standards in the sector.

Nevertheless, I am concerned about the bad practices of some letting agents who are charging extortionate fees to tenants, who very often are in no position to refuse to pay such fees and agree they must be stopped. Some of the examples we hear about are simply shocking and action is required to tackle this.

I appreciate there are many good letting agents operating across the country and that many of their fees are legitimate and necessary in recouping business costs for the services they provide. Therefore any measures introduced to stop the charging of letting agent fees to tenants needs to be carefully considered. They must be proportionate and effective, and must not result in unintended consequences or simply create new problems in their place.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 55

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I have already made a commitment to review the evidence currently out there, before deciding what action we should take in Wales. We will take into account the effect of the Scottish legislation. We will also be reviewing the proposals in England, taking into account the findings of their consultation which is due to be held in the coming months.

We must also consider the impact of the different route we have taken in Wales, by introducing Rent Smart Wales and whether this will impact on how we approach any further regulation of the sector. In summary, whilst I agree action is needed to address this issue, I am reluctant to go rushing into legislation without carefully studying all the evidence and thinking through the potential consequences first.

Yours sincerely



Carl Sargeant AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Additional evidence to the Petitions Committee on banning letting agents' fees to tenants

6th February 2017

Introduction

Shelter Cymru welcomes the opportunity to provide a response to the Cabinet Secretary's letter of 4th January outlining his current thinking on whether Wales should introduce a ban on letting fees.

We have already had useful and constructive discussions with the Cabinet Secretary over this issue, and we welcome that he recognises action is needed.

We understand that the Welsh Government has already spearheaded important reforms to the private rented sector. Implementation of these reforms is very much a work in progress. Changes to the Welsh private rented sector are likely to continue for a number of years to come. We agree that further reforms must be planned carefully, but we hope that implementation of Rent Smart Wales, and also the Renting Homes Act (not likely to commence before autumn 2018) won't hold up action where it's needed.

We understand that in England the Department for Communities and Local Government will issue the consultation in March or April, with primary legislation potentially to follow within the year.

Wales has been pursuing effective distinctive policies from the rest of the UK and will continue to do so, but if Wales chooses not to go ahead with a ban, or introduces a ban much later than England, then a difference in policy between England and Wales, in this instance, could present a number of risks. For example:

- There's a possibility that some unscrupulous letting agents may be tempted to set up in Wales rather than England. Although Rent Smart Wales is an additional safeguard to help protect professional standards in Wales, an influx of potentially unlicensed agents from England does represent an enforcement challenge at a time

when the resources of Rent Smart Wales are already stretched with implementation activity.

- A ban on letting fees has been a long-standing campaigning goal of the National Union of Students. If fees were banned in England and Scotland but not in Wales, this may represent a disincentive for students to study here.
- PRS access will be comparatively more expensive for tenants in Wales than in England or Scotland, making it harder to prevent and relieve homelessness. Anecdotally, we have heard a number of instances of Welsh letting agents hiking fees in order to take advantage of increases in local authorities' homelessness prevention budgets that were necessary to help councils implement Part 2 of the Housing (Wales) Act.

We understand that the Welsh legislative programme is very full but we hope that the Government can find time to prioritise this important measure that will complement Rent Smart Wales in professionalising the sector.

To conclude, we would like to share some comments from the 145 current and former tenants in Wales who responded to our recent online survey. This survey found that:

- 41 per cent had to get into debt to pay letting fees
- 84 per cent disagreed that the service they received from their agent was worth the fees they paid
- 85 per cent agreed that letting fees to tenants should be abolished.

Here are some of the comments they shared with us:

'Absolute rip-off. Did not get house but I passed all credit checks. Letting agent took fees from at least six different people for the same house. It was only when I threatened to contact Trading Standards I got my fee returned. In short it was just a scam.'

'Complete rip-off. I paid admin fees on a previous property only to fail the credit search, and subsequently lost the admin fee.'

'I had to pay a month's rent (£425) and a bond of £425 and £200 agency fees just to check if I passed the credit check. If I failed they would still keep the £200 so it was a risk to take.'

'They have a severe lack of ownership. They are willing to take your money but very unwilling to handle health and safety issues and maintenance. Being charged over £250 for a phone call to my employer to confirm I work there, and be emailed an Excel document with the

breakdown of costs, is diabolical. With my bond, fees and rent, my first month was close to £2,000. I fully support this cause to help more people get reasonable housing.'

'(I paid) £90 for a credit check, £75 admin fees and £70 to take the property off the website!'

'I have a 12-month contract. At renewal they charged me a £60 admin fee. I asked what it was for, and it was to photocopy the new agreement. I offered to print it free of charge but they wouldn't let me.'

'This agent also keeps the first month's rent paid, so they make a lot of money up front from the tenant and owner. This agent does not have enough competition in the area. Fees (£240) were said to be for credit checking and drawing up the tenancy. Online credit checking costs a few pounds per check. A standard tenancy is a computerised pro-forma. The agent only needs to insert a few details such as name and address.'

'We signed the initial contract for 12 months. After the 12 months was up we wanted to renew the tenancy and were charged £152.75 for a renewal fee which we had not been told about previously.'

'We have been private renting for seven years and used a couple of agents. The fees have become extortionate and I doubt we will be able to afford again if we have to move.'

'The only reason I have stayed in this residence this long is because I can't afford to pay the agency fees involved in moving house. I've wanted to move for over a year.'

'The fees charged to the landlord were just as horrific. She (the agent) even tried to persuade the landlord to invent things so she could get more fees. We both feel we were misled.'

More information on this survey and on our letting agent mystery shop exercise, carried out last year by our campaign supporters, can be found here:

<https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Letting-Go-Email.pdf>.

For more information please contact Jennie Bibbings, Campaigns Manager

jennieb@sheltercymru.org.uk

02920 556903

07884 261702

Eitem 2.2

P-05-735- Gwneud y cyfnod sylfaen yn fwy effeithiol ar gyfer ein plant, darparu mwy o athrawon a dileu y TASau blwyddyn 2.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tamsin Osborne ar ôl casglu 14 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Hoffwn i Gynulliad Cymru roi'r gorau i siomi ein plant yn y Cyfnod Sylfaen.

Dylai ddilyn esiampl systemau addysg mwyaf llwyddiannus Ewrop, fel yn y Ffindir a Sgandinafia.

Dylai ddarparu hyfforddiant a chyllid i ysgolion ar gyfer sicrhau cymarebau priodol rhwng athrawon a phlant, er mwyn cyflawni addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Galwaf am ddiddymu'r TASau, sef y profion gwladol, yn y Cyfnod Sylfaen. Yn syml, nid ydynt yn cyfateb ag ethos y Cyfnod Sylfaen.

Gwybodaeth ychwanegol

Rydym wrth ein bodd gydag ethos y cyfnod sylfaen. Mae ymagwedd y Cynulliad yn chwa o awyr iach, ac yn unol â sawl darn o waith ymchwil sy'n cefnogi chwarae a arweinir gan blant hyd at saith oed. Fodd bynnag, mae'n anffodus bod addysgeg y cyfnod sylfaen yn cael ei cholli mewn llawer o ysgolion ledled Cymru. Mae hyn oherwydd diffyg hyfforddiant mewn darpariaeth chwarae yn y blynyddoedd cynnar; hyd yn oed pe bai gan yr athro yr hyfforddiant, yr angerdd a'r ddealltwriaeth i ddarparu addysgeg y cyfnod sylfaen, mae'r cymarebau rhwng yr athrawon a'r plant yn ei gwneud bron yn amhosibl. Sut y gall unrhyw athro ddilyn plentyn wrth iddo chwarae pan mae hyd at 30 o blant yn y dosbarth hwnnw, gyda dim ond un cynorthwy-ydd addysgu i gefnogi pob un o'r plant hynny wrth iddynt chwarae, darganfod a dysgu?

Nid ydym yn credu bod gan y TASau, sef y profion gwladol, unrhyw le yn y cyfnod sylfaen yng Nghymru. Mae'r cyfnod sylfaen yn ymwneud â chefnogi plant wrth iddynt chwarae:

I ddatblygu sgiliau echddygol bras drwy symud,
I ddatblygu sgiliau echddygol mân sy'n angenrheidiol ar gyfer ysgrifennu,
I gymryd risgiau a dysgu cyfrifoldeb,
I roi'r amser sydd ei angen arnynt i ddatblygu blociau adeiladu solid ar gyfer iaith a rhifedd,
I gael cyfleoedd i edrych yn ôl a dysgu yn ôl angen/dewis y plentyn hefyd,
I ddatblygu'r sgiliau i gael mynediad a darganfod eu hunain,
I ddysgu sgiliau cymdeithasol allweddol gyda'u cyfoedion ac oedolion,

Mae hwn yn ddull sydd wedi'i brofi er mwyn paratoi plant yn barod ar gyfer addysg gynradd yn saith oed. Dyma sut mae systemau addysg mwyaf llwyddiannus Ewrop yn gwneud pethau, ond mae disgwyl i blant chwech a saith oed ym mlwyddyn dau eistedd ac ysgrifennu mewn profion i gymharu ein plant â'r rhai yn Lloegr. Mae hyn yn gorfodi athrawon yn y Cyfnod Sylfaen i ddechrau dysgu seineg a rhifau i'n plant pan fyddant yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn ac erbyn blwyddyn un bydd disgwyl iddynt eistedd ac ysgrifennu, gan eu gwneud yn barod ar gyfer y profion hynny sydd yn adlewyrchu ar yr ysgol.

Mae ein plant yn cael eu hamddifadu o'u plentyndod, plant sy'n dechrau yn yr ysgol yn ddim ond pedair oed yng Nghymru, sydd wedyn yn cael eu gorfodi i mewn i'r system hon, chwe awr y dydd o ddysgu dwys yn yr ystafell ddosbarth. Nid dyma ethos blaengar y Cyfnod Sylfaen y gwnaeth Cynulliad Cymru ei roi ar waith yn 2010. Rwy'n eich annog i gyd i ystyried effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen ledled Cymru, gan ddarparu'r cyllid sydd ei angen i gael mwy o gynorthwyr dysgu a hyfforddiant i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen, fel y gall Addysg Gynradd Cymru fod yn un y gall Llywodraeth Cymru fod yn falch ohono, a ddarperir yn eithriadol ym MHOB ysgol ledled Cymru. Dylai pob plentyn yng Nghymru gael mynediad teg i chwarae cynhyrchiol, gan baratoi'r ffordd iddynt gael taith dysgu gadarnhaol a gwobrwyol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-735

Teitl y ddeiseb: Gwneud y cyfnod sylfaen yn fwy effeithiol ar gyfer ein plant, darparu mwy o athrawon a dileu y TASau blwyddyn 2.

Testun y ddeiseb:

Hoffwn i Gynulliad Cymru roi'r gorau i siomi ein plant yn y Cyfnod Sylfaen.

Dylai ddilyn esiampl systemau addysg mwyaf llwyddiannus Ewrop, fel yn y Ffindir a Sgandinafia.

Dylai ddarparu hyfforddiant a chyllid i ysgolion ar gyfer sicrhau cymarebau priodol rhwng athrawon a phlant, er mwyn cyflawni addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Galwaf am ddiddymu'r TASau, sef y profion gwladol, yn y Cyfnod Sylfaen. Yn syml, nid ydynt yn cyfateb ag ethos y Cyfnod Sylfaen.

Rydym wrth ein bodd gydag ethos y cyfnod sylfaen. Mae ymagwedd y Cynulliad yn chwa o awyr iach, ac yn unol â sawl darn o waith ymchwil sy'n cefnogi chwarae a arweinir gan blant hyd at saith oed. Fodd bynnag, mae'n anffodus bod addysgeg y cyfnod sylfaen yn cael ei cholli mewn llawer o ysgolion ledled Cymru. Mae hyn oherwydd diffyg hyfforddiant mewn darpariaeth chwarae yn y blynyddoedd cynnar; hyd yn oed pe bai gan yr athro yr hyfforddiant, yr angerdd a'r ddealltwriaeth i ddarparu addysgeg y cyfnod sylfaen, mae'r cymarebau rhwng yr athrawon a'r plant yn ei gwneud bron yn amhosibl. Sut y gall unrhyw athro ddilyn plentyn wrth iddo chwarae pan mae hyd at 30 o blant yn y dosbarth hwnnw, gyda dim ond un cynorthwydd addysgu i gefnogi pob un o'r plant hynny wrth iddynt chwarae, darganfod a dysgu?

Nid ydym yn credu bod gan y TASau, sef y profion gwladol, unrhyw le yn y cyfnod sylfaen yng Nghymru. Mae'r cyfnod sylfaen yn ymwneud â chefnogi plant wrth iddynt chwarae: I

*ddatblygu sgiliau echddygol bras drwy symud,
I ddatblygu sgiliau echddygol mân sy'n angenrheidiol ar gyfer ysgrifennu,
I gymryd risgiau a dysgu cyfrifoldeb,
I roi'r amser sydd ei angen arnynt i ddatblygu blociau adeiladu solid ar gyfer iaith a rhifedd,
I gael cyfleoedd i edrych yn ôl a dysgu yn ôl angen/dewis y plentyn hefyd,
I ddatblygu'r sgiliau i gael mynediad a darganfod eu hunain,
I ddysgu sgiliau cymdeithasol allweddol gyda'u cyfoedion ac oedolion.*

Mae hwn yn ddull sydd wedi'i brofi er mwyn paratoi plant yn barod ar gyfer addysg gynradd yn saith oed. Dyma sut mae systemau addysg mwyaf llwyddiannus Ewrop yn gwneud pethau, ond mae disgwyl i blant chwech a saith oed ym mlwyddyn dau eistedd ac ysgrifennu mewn profion i gymharu ein plant â'r rhai yn Lloegr. Mae hyn yn gorfodi athrawon yn y Cyfnod Sylfaen i ddechrau dysgu seineg a rhifau i'n plant pan fyddant yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn ac erbyn blwyddyn un bydd disgwyl iddynt eistedd ac ysgrifennu, gan eu gwneud yn barod ar gyfer y profion hynny sydd yn adlewyrchu ar yr ysgol. Mae ein plant yn cael eu hamddifadu o'u plentyndod, plant sy'n dechrau yn yr ysgol yn ddim ond pedair oed yng Nghymru, sydd wedyn yn cael eu gorfodi i mewn i'r system hon, chwe awr y dydd o ddysgu dwys yn yr ystafell ddosbarth. Nid dyma ethos blaengar y Cyfnod Sylfaen y gwnaeth Cynulliad Cymru ei roi ar waith yn 2010. Rwy'n eich annog i gyd i ystyried effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen ledled Cymru, gan ddarparu'r cyllid sydd ei angen i gael mwy o gynorthwyyr dysgu a hyfforddiant i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen, fel y gall Addysg Gynradd Cymru fod yn un y gall Llywodraeth Cymru fod yn falch ohono, a ddarperir yn eithriadol ym MHOB ysgol ledled Cymru. Dylai pob plentyn yng Nghymru gael mynediad teg i chwarae cynhyrchiol, gan baratoi'r ffordd iddynt gael taith dysgu gadarnhaol a gwobrwyol.

Y cefndir

Y tri phrif bwynt a wnaed yn y ddeiseb yw:

- Dylai Cymru ddilyn y model Sgandinafaidd o addysg gynnar;
- Dylai cyllid a hyfforddiant fod ar gyfer cymarebau priodol disgybl i oedolion;
- Dylid diddymu profion ym Mlwyddyn 2.

Cafodd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3–7 oed yng Nghymru ei sefydlu yn 2004/05 a'i gyflwyno ar draws Cymru ym mis Medi 2010. Mae'n **seiliedig ar ddulliau ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn gwledydd Sgandinafaidd**. Dyma'r cwricwlwm statudol ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir.

Nod y Cyfnod Sylfaen yw diwallu anghenion plant drwy ddysgu datblygiadol, dysgu drwy brofiad a dysgu gweithredol. Drwy weithgareddau atyniadol, gall plant ymarfer a chyfnerthu eu sgiliau, arbrofi gyda syniadau, defnyddio'u creadigrwydd a'u dychymyg, cymryd risgiau, datrys problemau, a gwneud penderfyniadau yn unigol, yn ogystal â mewn grwpiau bach a mawr.

Y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd

Cafodd Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddwyd yr [adroddiad terfynol](#) ym mis Mai 2015.

Hyfforddiant

Fel rhan o raglen werthuso'r Cyfnod Sylfaen, cyhoeddwyd nifer o grynodedau ymchwil yn ystod 2014. Mae'r canfyddiadau allweddol ynghylch [hyfforddiant, cymorth ac arweiniad](#) yn cynnwys:

- Bod y **mwyafrif helaeth** o arweinwyr yn **fodlon ar y cyfan** gyda'r hyfforddiant a gawsant a bod gan athrawon sy'n dweud eu bod cwblhau mwy o wyth modiwl hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth well a barn fwy cadarnhaol am y Cyfnod Sylfaen;
- O'r rheini a fyddai'n newid yr hyfforddiant a ddarperir, y farn oedd bod negeseuon cymysg gan Lywodraeth Cymru – yn benodol y newid ffocws o chwarae i lythrennedd a rhifedd – wedi arwain at gamdealltwriaeth ymhlith ymarferwyr ynghylch sut i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fel y bwriedir.

Roedd y [gwerthusiad terfynol](#) yn gwneud nifer o argymhellion o ran hyfforddiant, gan gynnwys:

- Dylid rhoi sylw penodol (trwy hyfforddiant a chyfarwyddyd i ymarferwyr) ar sut i ddefnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn nosbarthiadau Blwyddyn 1, ac yn arbennig yn nosbarthiadau Blwyddyn 2;
- Dylid diwygio modiwlau hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen er mwyn gwella dealltwriaeth ymarferwyr o'r dulliau a'r addysgeg sydd bellach yn cael eu pwysleisio.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y Cyfnod Sylfaen mewn cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon a chysiau proffesiynol eraill (gan gynnwys cyrsiau gradd Meistr). Dylai hyn gynnwys cwricwlwm ac asesiadau'r Cyfnod Sylfaen, ond mae angen rhoi sylw arbennig i addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Gynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen](#) ym mis Tachwedd 2016. Mae'n amlinellu camau gweithredu i gefnogi a rhannu dysgu ynghylch arfer effeithiol a datblygu parhaus ar gyfer staff. Mewn perthynas â hyfforddiant, mae'n cynnwys pwyntiau gweithredu tymor byr (erbyn mis Medi 2017):

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda chynghorwyr her y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod lleoliadau ac ysgolion yn asesu'n ddigonol lefelau sgiliau ac anghenion y rheini sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac yn cynnwys y mynediad priodol at ddysgu proffesiynol o fewn eu cynlluniau datblygu.
- Awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol i sicrhau bod ganddynt arbenigedd staffio priodol ar waith i arwain ar ddysgu proffesiynol o fewn y Cyfnod Sylfaen.
- Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i adolygu'r adnoddau hyfforddi a chyfleoedd dysgu proffesiynol eraill sydd ar gael i ymarferwyr, gan gynnwys y rheini mewn rolau arwain, a rhannu arfer da a deunyddiau cyfredol, gan ddatblygu deunyddiau a dulliau diwygiedig lle bo angen. Bydd hyn yn cwmpasu dysgu proffesiynol ym maes datblygiad plant, arweinyddiaeth, profiadau o'r amgylchedd ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

Mae hefyd yn cynnwys y pwyntiau gweithredu tymor hir (erbyn Medi 2019)

- Sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod yn rhaid i bob rhaglen israddedig ac ôl-raddedig sy'n dyfarnu statws athro cymwysedig gynnwys cyflwyno datblygiad plentyn yn dilyn ail-ddilysu cyrsiau. Lle mae cyrsiau wedi bod drwy'r broses hon yn ddiweddar, dylai cyfleoedd i ymgorffori datblygiad plentyn i mewn i gyrsiau presennol gael eu hystyried.

Cymarebau oedolion i blant

Yn y Cyfnod Sylfaen, y cymarebau oedolion i ddisgyblion yw 1:8 ar gyfer plant tair i bump oed ac 1:15 ar gyfer plant pump i saith oed. Canfu'r *adroddiad gwerthuso terfynol*, ar gyfartaledd, **nad yw'r** gymhareb staff i ddisgyblion ar gyfer plant tair i bump oed (hy Meithrin a Derbyn) yn cael ei diwallu, a bod y gymhareb staff i ddisgyblion ar gyfer plant pump i saith oed (hy Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) **yn cael ei rhagori arni** ar gyfartaledd.

Canfu'r gwerthusiad:

- Yn **2013/14**, dyrannodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £92 miliwn ar gyfer cyflogi ymarferwyr ychwanegol i helpu ysgolion i ddiwallu'r cymarebau oedolion i blant. Dyrannwyd y refeniw hwn i awdurdodau lleol ar sail eu niferoedd disgyblion a oedd wedyn yn ei ddsbarthu i ysgolion gan ddefnyddio'u fformiwlâu cyllido eu hunain.
- O'r rhai a holwyd, dywedodd 72 y cant o benaethiaid a 79 y cant o ymarferwyr arweiniol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir nad oeddent yn cael unrhyw anawsterau o ran diwallu'r cymarebau oedolion i ddisgyblion a argymhellir. Roedd naw o bob deg pennaeth a ddywedodd eu bod wedi dod ar draws rhwystrau o ran diwallu'r cymarebau oedolion i ddisgyblion a argymhellir hefyd yn dweud bod

problemau cyllid yn rhwystr mawr o ran rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus.

Rhoddir cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal cymarebau oedolion i ddisgyblion drwy'r Grant Gwella Addysg (GGA). Mae telerau ac amodau'r grant yn nodi bod yn rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gofyniad i weithio tuag at gymarebau staff i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fel rhan o gwricwlwm effeithiol o ansawdd uchel y Cyfnod Sylfaen. Yn ei thystiolaeth [i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 10 Tachwedd 2016](#), dywedodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

“most of our education improvement grant goes in supporting, for instance, settings to meet the ratios between children and adults.”

O 2015–16, un GGA sydd ar gael i gefnogi'r gweithgareddau a'r canlyniadau a fwriedir o'r 11 o wahanol grantiau blaenorol (a oedd wedi'u neilltuo)¹. Yn ystod [gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o graffu ar y gyllideb ddrafft](#), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod £133 miliwn wedi'i ddyrannu i'r GGA yn 2017–18. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o £153 miliwn ar gyfer yr 11 o grantiau unigol yn 2014–15. **Nid yw'r** cyfanswm i'w wario ar bob diben unigol o dan y GGA wedi'i neilltuo, ac mae'r awdurdodau lleol a'r consortia yn gwario'u dyraniadau fel y maent yn ei weld yn briodol

Profion

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn datgan yn ei ymateb i'r Pwyllgor nad yw plant ym Mlynyddyn 2 yn sefyll TASau (profion cyrhaeddiad safonol) ac nad yw'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol y mae dysgwyr yn eu sefyll ym mlynyddoedd 2 i 9 yr un peth â'r profion TASau y mae dysgwyr yn Lloegr yn eu sefyll. Mae 'TASau' yn derm cyffredinol ar gyfer y profion neu'r asesiad a wneir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol.

Cyflwynwyd profion darllen a rhifedd cenedlaethol statudol ym mis Mai 2013 ar gyfer pob disgybl ym Mlynyddoedd 2 i 9. Roedd llawer o ysgolion yn arfer defnyddio profion darllen a rhifedd wedi'u datblygu'n fasnachol, yn ogystal â phroffion gallu gwybyddol. Y bwriad gyda chyflwyno'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol oedd gwneud ymarfer yn unffurf. Mae'r profion yn ategu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) Llywodraeth Cymru ac yn ceisio olrhain cynnydd disgyblion mewn sgiliau darllen a rhifedd o Flwyddyn 2 (diwedd y Cyfnod Sylfaen) hyd at Flwyddyn 9 (diwedd Cyfnod Allweddol 3). Mae'r profion wedi'u cynllunio i roi syniad mwy eglur i athrawon o ddatblygiad dysgwyr a sicrhau bod pob ysgol yn nodi anghenion eu disgyblion er mwyn datblygu eu gallu o ran darllen a rhifedd.

¹ Yr 11 o grantiau a gyfunwyd oedd Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaen, y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Llwybrau Dysgu 14-19, y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, y Grant Cymraeg mewn Addysg, y Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr, y Grant Ymarferwyr Arweiniol ac Ymarferwyr Datblygol, y Grant Cymorth Profion Darllen a Rhifedd, cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion Band 4 a 5, Sefydlu Athrawon, a'r Grant Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.

Bydd hyn yn eu galluogi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac i ymyrryd yn gynharach os yw dysgwyr ar ei hôl hi.

Roedd adolygiad yr OECD, [*Gwella Ysgolion yng Nghymru*](#) (2014) a'r [*Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*](#) (2015) gan yr Athro Donaldson yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio asesu yn bennaf i lywio addysgu a dysgu yn hytrach nag at ddibenion atebolrwydd. Mewn [papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Ionawr 2017](#), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

"Yn allweddol, bydd y trefniadau asesu yn y dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio asesu yn sail ar gyfer gwella addysgu a dysgu. Bydd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn casglu llai o wybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd."

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-735
Ein cyf/Our ref ARD/05537/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

3 January 2017

Dear Mike

Thank you for your letter of 7 December to the Cabinet Secretary for Education, seeking views on petition P-05-735 'Make Foundation Phase more effective for our children, provide more teachers and abolish Year 2 stats'. This has been passed on to me for response as early education provision falls within my portfolio.

I welcome Ms Osborne's statements that she and her colleagues love the ethos of the Foundation Phase. This is something that came out strongly from the independent evaluation of the Foundation Phase. The Foundation Phase is based on approaches in Scandinavian countries and we know from the evaluation that the approach also works in Wales and has led to improvements in attainment and attendance. The Foundation Phase was also identified as a particular strength of the curriculum by Professor Graham Donaldson in his wider review of the curriculum and assessment arrangements, particularly the aspect of experiential learning which will be a key element for all ages in the new curriculum which we shall be implementing across Wales from 2021.

The Welsh Government clearly stated its ongoing commitment to the Foundation Phase in Taking Wales Forward. Given the cut in public spending from the UK Government there remain challenges in maintaining funding for all public services. However, we have demonstrated our commitment to the Foundation Phase by retaining the funding for local authorities to be able to fund the enhanced adult to pupil ratios which are needed for the Foundation Phase.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Foundation Phase ratios were set in order to enable delivery of the Foundation Phase curriculum and its pedagogy, as evidence showed that high staff to pupil ratios are needed to deliver the approach of structured, active educational play and experiential learning, through outdoor as well as indoor learning.

The staff to pupil ratios are as follows:

- 1: 8 for 3 - 5 year-olds (Nursery and Reception classes); and
- 1:15 for 5 - 7 year olds (Year 1 and Year 2).

The terms and conditions of the Education Improvement Grant (EIG), the funding source for maintaining staff to pupil ratios, stipulate that the funding must be used to support the requirement to work towards Foundation Phase staff to pupil ratios as part of a high quality and effective Foundation Phase curriculum.

I recognise the importance of ensuring that the workforce has the necessary skills and knowledge to be excellent Foundation Phase practitioners. As Ms Osborne points out in her petition, training is important as a specific tool but it is more important that we consider a variety of approaches to professional learning, which fit in with a wider approach of practitioners in schools and nurseries learning from each other in a self-improving system. This is a more integrated and sustainable approach which will embed development at a deeper level and this will become increasingly important as we move towards implementing a new curriculum from 2021. Foundation Phase practitioners are also able to access the Progress for Success European Structural Funds programme which provides support for anyone in the early years, childcare and play workforce to up-skill in recognised sector qualifications at Levels 2 and 3.


I must clarify that the National Reading and Numeracy Tests taken by learners in years 2 to 9 are not the same as the SATs tests that are taken by learners in England, neither is the purpose of our tests to make comparisons between children in Wales and those in England. First and foremost, the aim of the National Reading and Numeracy Tests is to help schools across Wales assess their learners' reading and numeracy skills and gain a clearer insight into learners' development and progress. The age-standardised score from each test shows how well each learner has done compared to others of the same age in Wales. The diagnostic information from the tests is used alongside other forms of assessment to allow teachers to identify strengths and areas for improvement. The results of the tests are not included in the set of performance measures for primary schools or secondary schools in Wales. In England, by contrast, primary schools are ranked by their learners' test scores.

The Welsh Government always stresses to schools and parents that learners should not practice for the tests and that a broad and balanced curriculum must be maintained throughout the school year, including leading up to and during the test period. Schools that engage in drilling their learners for the tests are going against the guidance issued by the Welsh Government which states that teaching to the tests and overemphasis on preparation is unacceptable.

We do know from the evaluation that there is inconsistency in delivering the Foundation Phase according to its full pedagogical principles. This is something that we are addressing and we set out our approach to doing so in our Foundation Phase Action Plan which was published in November 2016.

The Action Plan, developed through an expert group of key stakeholders, sets out our vision and aims for early education over the next few years - to embed high-quality Foundation Phase pedagogy and practice in order to give children the best possible start in their education. It sets out a national approach to continuously improve the way in which our Foundation Phase curriculum for three to seven year olds is implemented and delivered in our schools and nurseries.

Yours ever,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Eitem 2.3

P-05-736- Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Laura Williams ar ôl casglu 73 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Er mwyn darparu gwasanaethau iechyd meddwl mwy hygyrch, dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr nad oes neb sy'n gofyn am gymorth gan wasanaeth iechyd meddwl gael ei droi ymaith heb help. Os oes unrhyw un yn mynd at eu meddyg teulu neu unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol i ofyn am gymorth ar gyfer problem iechyd meddwl, dylid eu cyfeirio'n awtomatig at y Tîm Argyfwng a dylai'r tîm hwn gymryd camau ar unwaith i'w helpu. Nid yr unigolyn ddylai fod yn gyfrifol am gysylltu â'r Tîm Argyfwng ei hun. Dylid cynnig therapi un i un, yn hytrach a therapi grŵp, bawb.

Fel y gŵyr nifer, nid yw fy mywyd i wedi bod yn hawdd ac rwyf wedi cael problemau iechyd meddwl; rwy'n cael pyliau o iselder, gorbryder, anhwylder straen wedi trawma (PTSD) ac OCD. Cyrhaeddais y gwaelod un yn ddiweddar, a sgrechian am help ond, er i mi gredu y byddai'r gwasanaethau iechyd meddwl yn fy helpu, cefais fy siomi'n arw ganddynt.

Rwyf am i'm profiad i helpu eraill yng Nghymru i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 6 Chwefror 2016

Petitions Committee | 6 February 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-736

Teitl y ddeiseb: Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch

Os yw'r Llywodraeth am wneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch, dylid sicrhau na chaiff unrhyw un sy'n ceisio gwasanaeth iechyd meddwl gael ei wrthod heb dderbyn cymorth. Dylai unrhyw un sy'n mynd at ei feddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol oherwydd problemau iechyd meddwl gael ei gyfeirio'n awtomatig at y tîm argyfwng, a ddylai weithredu ar unwaith. Ni ddylai fod yn gyfrifoldeb ar yr unigolyn i gysylltu â'r tîm argyfwng ar ei ben ei hun. Dylid hefyd cynnig opsiwn o therapi un wrth un bob amser, yn hytrach na therapi grŵp yn unig.

Bydd nifer o bobl yn gwybod nad ydw i wedi cael bywyd hawdd a fy mod wedi bod yn cael trafferthion â'm hiechyd meddwl; rwy'n dioddef o iselder, gorbryder, anhwylder straen wedi trawma ac OCD. Yn ddiweddar, rwyf wedi bod ar fy ngwaethaf, ac wedi erfyn am gymorth, ond cefais fy siomi gan y gwasanaethau iechyd meddwl y credwn y byddent yn fy helpu.

Hoffwn i'm profiad i helpu pobl eraill yng Nghymru wrth iddynt geisio'r cymorth y maent ei angen.

Y cefndir

Mae adroddiad y Sefydliad Iechyd Meddwl, sef [Iechyd Meddwl yng Nghymru: Ffeithiau Sylfaenol](#), yn nodi ar sail data o [Arolwg Iechyd Cymru](#) bod 13 y cant o oedolion sy'n byw yng Nghymru (16 oed a throsodd) wedi cael triniaeth ar gyfer problem iechyd meddwl yn 2015, sy'n gynydd o'r 12 y cant a gafodd driniaeth yn 2014. Mae'r papur briffio hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd, yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth am ofal argyfwng.

Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd

Yn 2010, pasiodd Llywodraeth Cymru [Fesur Iechyd Meddwl Cymru 2010](#) (y Mesur), a ddaeth i rym yn 2012 gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol

ac eilaidd yng Nghymru. O ran gofal sylfaenol, mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, gan gynnal y gwasanaethau o fewn meddygfeydd teulu cyfredol neu ar y cyd â'r meddygfeydd teulu hynny.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer y gwasanaethau hynny yn y [Model Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd sylfaenol lleol](#). Mae'n nodi y bydd meddygon teulu yn cyfeirio unigolion at wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (paragraff 3.5). Efallai y bydd meddygon teulu yn dewis cyfeirio unigolion at wasanaethau eraill o fewn y system gofal iechyd meddwl (e.e. Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac ati). Wedi i unigolyn gael ei gyfeirio at wasanaethau eraill, dywedir fel a ganlyn:

3.24 It is for the recipient of the referral to consider and decide whether the provision of any services to which the referral relates is called for.

Diben y gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yw mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl mewn achosion ysgafn i gymhedrol gan ddefnyddio amrywiaeth o driniaethau:

3.16 Local primary mental health support services should offer a portfolio of evidence-based, time limited interventions which are appropriate to individual clinical need to treat common mental health problems in all age groups. The short-term interventions (i.e. treatment), should be delivered either at an individual level or through group work, dependent on which approach the assessment has identified as appropriate. Such interventions may include counselling, psychological interventions, (including cognitive behavioural therapy, solution-focused therapy, family work, online support, stress management), bibliotherapy and education.

Mae cleifion â phroblemau iechyd meddwl yn aml yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eilaidd sy'n wasanaethau iechyd meddwl arbenigol na chânt eu darparu o fewn gofal sylfaenol. O ran gofal eilaidd, mae Rhan 2 y Mesur yn rhoi'r hawl i bob claf gael cydlynnydd gofal ynghyd â chynllun gofal a thriniaeth. Mae Rhan 3 o'r Mesur yn caniatáu i gleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o'r gwasanaethau gofal iechyd eilaidd gyfeirio eu hunain yn ôl at y gwasanaethau hynny.

Roedd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y Mesur o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [adroddiad interim](#) (PDF 789 KB) yn 2014 a chyhoeddwyd [adroddiad terfynol dyletswydd i adolygu](#) (PDF 1.1 MB) flwyddyn yn ddiweddarach. Nodwyd bod y newid diwylliant yn dod yn amlycach, er bod angen cynnal mwy o waith. Nododd yr adroddiad fod y gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn diwallu galw sylweddol nad oedd darpariaeth ar ei gyfer gynt, gan

arwain at amseroedd disgwyl hwy, yn arbennig o ran therapi seicolegol. Mae'r canfyddiadau hyn yn ymdebygu i [adroddiad Mind Cymru](#) sy'n awgrymu nad yw unigolion yn cael dewis o therapi ac y cânt gynnig triniaeth nad ydyw'n diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau (gellir gweld rhagor o wybodaeth am y therapi seicolegol sydd ar gael yng Nghymru mewn [papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil](#)).

Ynghyd ag adolygiad Llywodraeth Cymru, roedd y Mesur hefyd yn destun [craffu ar ôl deddfu gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad](#). Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod mynediad at ofal a chefnogaeth iechyd meddwl wedi gwella ar y cyfan, ond mynegodd y Pwyllgor ei bryder na fydd capasiti gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yn ddigonol o bosibl ar gyfer diwallu'r galw cynyddol. Gellir darllen crynodeb o adroddiad y Pwyllgor [ym mlog y Gwasanaeth Ymchwil](#).

Gofal argyfwng

Darperir gofal argyfwng gan dimau triniaeth yn y cartref i ddatrys argyfwng. Nid oes cysondeb ar draws y gwahanol dimau o ran polisi cyfeirio. Bydd rhai timau argyfwng yn derbyn pobl sy'n hunan-gyfeirio, ac eraill yn derbyn cleifion sydd wedi cael eu cyfeirio gan feddygon teulu neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn unig. Mae argaeledd gofal argyfwng hefyd wedi bod yn destun pryder, ac mae [Mind Cymru yn awgrymu](#) nad yw gwasanaethau yr un mor hygyrch i bawb o bobl Cymru, a bod hygyrchedd y gwasanaethau yn amrywio o le i le.

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Lansiodd Llywodraeth flaenorol Cymru strategaeth ddeng mlynedd yn 2012, sef *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*, yn amcanu at wella iechyd meddwl a lles. Mae'r strategaeth yn ceisio canfod atebion tymor hir, ac mae pwyslais ynddi ar atal a lles. Cyhoeddwyd [Cynllun Cyflawni 2016-2019](#), sef yr ail o gyfres o dri, ym mis Hydref 2016. Nododd y cynllun cyflawni 11 blaenoriaeth gan osod canlyniadau dymunol, nodi camau gweithredu allweddol i gyflawni'r nodau, a manylu ar y mesurau perfformiad. Nodwyd materion sy'n ymwneud â mynediad at ofal mewn dau faes blaenoriaeth yn enwedig:

- Maes blaenoriaeth 3 – Mae gwasanaethau'n diwallu anghenion holl boblogaeth amrywiol Cymru. Canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau o ran mynediad unigolion sy'n agored i niwed at wasanaethau, a sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; a
- Maes blaenoriaeth 8 – Mae gwasanaethau priodol ac amserol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n mynd i'r afael â nifer o faterion, megis rhoi cymaint o flaenoriaeth i les meddyliol â lles corfforol wrth ddatblygu a chynnig gwasanaethau, gan weithio â'r trydydd sector i ddefnyddio dull integredig, neu gan sicrhau bod cysylltiadau cryf rhwng gofal sylfaenol ac iechyd

meddwl. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd sicrhau bod therapi seicolegol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer oedolion ar gael yn rhwyddach yn unol â Chynllun Gweithredu'r Pwyllgor Rheoli Cenedlaethol ar gyfer Therapiau Seicolegol (NPTMC) erbyn mis Mawrth 2017.

Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae iechyd meddwl yn codi'n aml ar agenda'r Cynulliad. Ar 12 Hydref 2016, cynhaliodd Plaid Cymru [ddadl ar iechyd meddwl](#), gan ganolbwyntio ar newid agweddau pobl a herio'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, a chytunodd yr Aelodau fod angen mynd i'r afael â'r mater.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref VG/07054/16
Your ref: P-05-736

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

20 December 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 7 December about this petition (ref P-05-736) which relates to mental health services. I was sorry to read about the difficulties Laura has experienced with her mental health.

When somebody presents to the health service with mental health problems, the GP or other professional will use their professional judgement and decide the most appropriate next step. Many people will be offered advice or support directly by their GP, or offered access to more information, such as books on prescription or medication.

For others, the GP or other professional may refer on for a more detailed assessment. This referral may be to the Local Primary Mental Health Support Service (LPMHSS). Over the last two years, we have invested an additional £2.3m in LPMHSS. Since the Mental Health (Wales) Measure came into force in 2012, over 115,000 people have been seen by LPMHSS in Wales.

Other people may need to be seen by specialist mental health services which might include the community mental health team, or if more acute, to the crisis team or other service. This will be a professional judgement which is made following discussion with the individual.

We introduced new targets for services last year and now expect people to be assessed within 28 days, compared to the previous target of 56 days. Urgent referrals are expected to be seen within 48 hours and emergency referrals within four hours.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Tudalen y pecyn 77

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

We have also invested an additional £4m over the last two years in psychological therapies. Welsh Government officials have been in detailed discussions with each health board to agree how they will use the additional funding to improve access to psychological therapies.

I hope the signatories of the petition and the committee find this helpful.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, reading "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V'.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

**P-05-736 To Make Mental Health Services More Accessible -
Correspondence from the Petitioner to the Committee, 07.02.17**

To whom it may concern

I set up a petition to be able to access mental health more easily I was asked about any more comments towards my petition I would like to add one more comment towards my petition which should be highly considered.

Upon applying for pip myself last year I found I was being discriminated against I was asked could I walk and I said yes physically I can walk I was then told that because I can walk 50 yards there was nothing wrong with me and I didn't need to claim for pip.

Pip forms should be separated one form for physical problems and another form for mental health problems both forms mixed in together is confusing and a lot of people probably get turned down because they can physically move around mental health is not visible however does not mean we do not suffer physically aswell as mentally people with mental health like myself suffer and we get told no to pip claims because we can physically moved therefore if forms were to be made to be separate it would make it a lot easier for not only us people who are suffering but also the accessors who look at our forms.

My petition is to be heard on 14th of February I look forward to hear the outcome and any updates.

Yours sincerely
Laura Williams

Eitem 2.4

P-05-737- Achubwch ein bws.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Patricia Threadgill ar ôl casglu 60 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Newydd ddod i ddeall heddiw bod y bws rydw i'n ei ddefnyddio'n rheolaidd o Gilfach Goch i Bontypridd yn diflannu. Ym mis Ionawr 2016 dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i wella ansawdd gwasanaethau bws lleol a'u gwneud yn fwy hygyrch. Mae pobl hŷn, pobl dlotach a phobl ag anableddau yng Ngilfach Goch sy'n defnyddio'r bws hwn, a gall wneud y gwahaniaeth rhwng teithio o le i le a theimlo'n gaeth. Felly achubwch y 150 i BONTYPRIDD !!!!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru

Deiseb P-05-737: Achubwch ein bws

Y Pwyllgor Deisebau | 14 Chwefror 2017
Petitions Committee | 14 February 2017

Briff Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-737

Teitl y ddeiseb: Achubwch ein bws

Testun y ddeiseb: Newydd ddod i ddeall heddiw bod y bws rydw i'n ei ddefnyddio'n rheolaidd o Gilfach Goch i Bontypridd yn diflannu. Ym mis Ionawr 2016 dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i wella ansawdd gwasanaethau bws lleol a'u gwneud yn fwy hygyrch. Mae pobl hŷn, pobl dlotach a phobl ag anableddau yng Ngilfach Goch sy'n defnyddio'r bws hwn, a gall wneud y gwahaniaeth rhwng teithio o le i le a theimlo'n gaeth. Felly achubwch y 150 i BONTYPRIDD !!!!!

Cefndir

Dadreoleiddio gwasanaethau bws lleol

Cafodd gwasanaethau bws lleol ym Mhrydain Fawr, ac eithrio Llundain, eu dadreoleiddio gan y *Ddeddf Trafnidiaeth 1985* (fel y'i diwygiwyd) ('y Ddeddf'). Polisi'r Ddeddf yw y bydd gwasanaethau bws lleol fel arfer yn cael eu darparu ar sail fasnachol, heb gymhorthdal gan awdurdod lleol. Yn hynny o beth mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau yng Nghymru yn rhai masnachol a gellir eu cofrestru (neu ddadgofrestru/amrywio) gan y cwmni bysiau, fel arfer gyda 56 diwrnod o rybudd i'r Comisiynydd Traffig.

Mae Adran 63(1) o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir i sicrhau gwasanaethau (pwyslais wedi'i ychwanegu isod):

(1) Ym mhob sir anfetropolitan yng Nghymru a Lloegr bydd yn ddyletswydd ar y cyngor sir –

(a) i sicrhau darpariaeth gwasanaethau cludiant teithwyr cyhoeddus y mae'r cyngor yn eu hystyried yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw ofynion cludiant cyhoeddus o fewn y sir **na fyddent yn eu barn hwy yn cael eu bodloni oni bai am unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt at y diben hwnnw.**

Mae'r gwasanaethau "cymdeithasol angenrheidiol" hyn yn cael eu caffael gan awdurdodau lleol trwy dendr.

Mae'r ddyletswydd yn cael ei gymhwyso yng Nghymru a Lloegr gan adran 63(5)(a) sy'n dweud bod eu pwerau i lunio cytundeb i roi cymhorthdal i wasanaethau "yn arferadwy dim ond lle na fyddai'r gwasanaeth dan sylw yn cael ei ddarparu, **neu na fyddai'n cael ei ddarparu i safon benodol**, heb gymhorthdal" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

Newidiadau i'r gwasanaeth 150 (Pontypridd i Gilfach Goch)

Roedd Stagecoach yn gweithredu'r gwasanaeth 150 bob 15 munud rhwng Gilfach Goch a Phorth gan ymestyn ddwywaith yr awr o Borth i Bontypridd. Hysbysodd y cwmni y Comisiynydd Traffig o'i fwriad i wneud newidiadau i'r gwasanaeth ym mis Hydref 2016. Ymddangosodd hysbysiad am y newid ar wefan Llywodraeth y DU, wedi'i gyhoeddi yn hysbysiadau a thrafodion y Comisiynydd Traffig [ar gyfer 20 Hydref 2016 \(PDF 370KB\)](#), fel cais i amrywio gwasanaeth presennol. Daeth y newid i rym o 4 Rhagfyr 2016.

Mae Stagecoach wedi rhoi manylion i'r Gwasanaeth Ymchwil am y newidiadau i'r gwasanaeth a'i resymeg mewn perthynas â'r newidiadau. Mae'n nodi bod y rhain o ganlyniad i ostyngiadau mewn teithwyr a refeniw ac yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth a oedd, yn ôl Stagecoach, yn darparu "cefndir cryf ar gyfer addasu adnoddau i weddu'n well i'r farchnad a chadw'r gwasanaeth bws hwn ar gyfer y dyfodol" yn cynnwys cael gwared ar ddyblygu ar y rhan o'r daith rhwng Porth a Phontypridd sydd hefyd yn cael ei gwasanaethu gan y gwasanaethau 120, 130 a 132. Mae Stagecoach yn disgrifio'r newid fel a ganlyn:

nid yw unrhyw wasanaeth wedi cael ei dynnu'n ôl, yn hytrach mae'r amllder [o Gilfach Goch] wedi cael ei leihau o bob 15 munud i bob 20 munud ac mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi ym Mhorth yn hytrach na Phontypridd gyda gwasanaethau eraill [120, 130 a 132] yn cynnig 11 o deithiau yr awr rhwng Porth a Phontypridd. Mae cwsmeriaid sy'n newid bysiau yn y Porth ar gyfer Pontypridd yn gwneud hynny ar yr un safle bws gyda thocynnau drwodd.

Mae'r gwasanaeth 150 yn cael ei ddarparu heb gymhorthdal awdurdod lleol. Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon yn tynnu sylw at y ffaith bod penderfyniadau gwasanaeth yn fater masnachol i'r cwmni bysiau, oni bai ei fod yn derbyn cymhorthdal. Aiff ymlaen i ddweud:

Yn yr achos hwn, byddai'n fater i Gyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried a yw'n dymuno ariannu yn gyhoeddus y gwaith o gadw estyniad Pontypridd a'r amledd blaenorol o 15 munud.

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Polisi Bysiau

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, [Symud Cymru Ymlaen 2016–2021](#), yn cynnwys ymrwymiad i "[d]arparu rhwydwaith mwy effeithiol o wasanaethau bws unwaith y bydd y pwerau wedi'u datganoli gan Fil Cymru".

[At hynny](#), cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC, ddatganiad ysgrifenedig ar 15 Medi yn nodi ei fod yn awyddus i ddarparu rhwydwaith bysiau yng Nghymru sy'n sefydlog neu'n cynyddu, gan nodi cynllun pum pwynt i gynorthwyo'r diwydiant bysiau i fod yn fwy cynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynnig cymorth i'r holl gwmnïau bysiau yng Nghymru trwy Busnes Cymru a Chyllid Cymru;
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi gwasanaethau bws sy'n agored i niwed a sefydlu strategaethau i ymateb i achosion a gynlluniwyd o ddileu gwasanaethau bysiau;
- Gweithio gydag awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd a'u cwmnïau bysiau trefol i "gasglu gwybodaeth ar sut y gellir gweithredu rhwydweithiau bysiau cynaliadwy tra'n cynnal y difidend cymdeithasol";
- Ariannu dwy swydd cydlynedd bysiau yng ngogledd a de Cymru; a
- Cynnal uwchgynhadledd bws (a gynhaliwyd yn ddiweddarach ar 23 Ionawr 2017).

Cyllid

Fel mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol Cymru i gefnogi gwasanaethau bysiau, trwy'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (BSSG). Mae'r grant hwn a'i ragflaenydd, y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u rhewi ar £25 miliwn ers 2013–14, sy'n doriad mewn termau real.

Mae canllawiau BSSG Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17 yn disgrifio diben y grant fel "cefnogi gwariant awdurdodau lleol drwy arfer eu pwerau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol", gan gynnwys "cefnogi a chynnal y rhwydwaith bysiau strategol craidd yn eu hardal i wella cysylltedd". Hefyd, mae awdurdodau lleol yn gallu cefnogi gwasanaethau bysiau sy'n "angenrheidiol yn gymdeithasol" drwy eu cyllid refeniw craidd.

Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid yw'r mater hwn wedi cael ei ystyried eto gan y Cynulliad.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-737
Ein cyf/Our ref KS/07569/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

Dear Mike,

10 January 2017

Thank you for your letter of 7 December regarding the petition received from Patricia Threadgill following Stagecoach's changes to its Gilfach Goch to Pontypridd bus service.

I fully appreciate the importance of bus services in Wales and I am disappointed with the decision by Stagecoach to reduce the frequency of its service 150 between Porth and Gilfach Goch, and to discontinue the half-hourly extension to Pontypridd.

Unless in receipt of a subsidy from the local authority, decisions about service changes are made at the commercial discretion of bus operators. In this case it would be a matter for Rhondda Cynon Taf Council to consider whether it wishes to publicly fund the retention of the Pontypridd extension and the former 15 minute frequency.

We are providing £25m to local authorities in 2016-17 under the Bus Services Support Grant to help subsidise socially-necessary bus and community transport services. Each authority is responsible for determining which services it supports utilising its grant allocation.

In the circumstances, the correspondent may wish to ask Bus Users Cymru, which the Welsh Government funds to represent the interests of bus passengers, to take up their concerns with Stagecoach in South Wales. The appropriate contact, who would be more than happy to assist, is Barclay Davies, who can be reached on 029 2034 4300, or Barclay.Davies@BusUsers.Org.

*Yours ever,
Ken*

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and corresponding in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-739- Achub Gwasanaethau TWF

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cymdeithas yr Iaith ar ôl casglu 912 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin, i ailystyried penderfyniad andwyol y llywodraeth ddiwethaf i ddiddymu prosiect TWF. Yn benodol, rwy'n galw ar y Llywodraeth i weithredu ar frys i:

- wrthdroi'r penderfyniad o dorri £200,000 i'r prosiect sy'n olynu TWF
- adfer parhad o'r cymorth yr oedd TWF yn ei gynnig a oedd yn canolbwyntio ar drosglwyddiad iaith a chefnogi babanod a rhieni newydd yn genedlaethol, hytrach nag yn dameidiol. Byddai hyn yn golygu adfer swyddi i swyddogion gyda phresenoldeb yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Fynwy, Tor-faen a Wrecsam.
- sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau hybu'r Gymraeg i rieni sydd â chysylltiadau â gwasanaethau megis Cymraeg i Oedolion, y Mentrau Iaith, Llyfrgelloedd a Chanolfannau Hamdden, gan gynnwys gweithgareddau sy'n rhoi cymorth i iechyd meddwl ôl-enedigol hefyd.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Achub Twf – Gwasanaethau Cymraeg o'r Crud

Y Pwyllgor Deisebau | 14 Chwefror 2017

Petitions Committee | 14 February 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-739

Teitl y ddeiseb: Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin, i ailystyried penderfyniad andwyol y llywodraeth ddiwethaf i ddiddymu prosiect TWF. Yn benodol, rwy'n galw ar y Llywodraeth i weithredu ar frys i:

- wrthdroi'r penderfyniad o dorri £200,000 i'r prosiect sy'n olyn TWF
- adfer parhad o'r cymorth yr oedd TWF yn ei gynnig a oedd yn canolbwyntio ar drosglwyddiad iaith a chefnogi babanod a rhieni newydd yn genedlaethol, yn hytrach nag yn dameidiol. Byddai hyn yn golygu adfer swyddi i swyddogion gyda phresenoldeb yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Fynwy, Torfaen a Wrecsam
- sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau hybu'r Gymraeg i rieni sydd â chysylltiadau â gwasanaethau megis Cymraeg i Oedolion, y Mentrau Iaith, Llyfrgelloedd a Chanolfannau Hamdden, gan gynnwys gweithgareddau sy'n rhoi cymorth i ieuchyd meddwl ôl-enedigol hefyd.

Cefndir

Yn wreiddiol, roedd Twf – Cymraeg o'r Crud (neu dwy iaith o'r diwrnod cyntaf yn Saesneg) yn gynllun peilot a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y teuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r iaith Gymraeg i'w plant. Ffocws 'Twf' oedd tynnu sylw rhieni newydd, darpar rieni a'r boblogaeth yn gyffredinol at werth y Gymraeg a dwyieithrwydd. Prif gynulleidfa darged 'Twf' oedd teuluoedd ieithoedd cymysg lle roedd dim ond un rhiant yn siarad Cymraeg.

Ar ôl gwerthuso'r cynllun peilot, gwelwyd ei fod yn gynllun effeithiol, a chafodd ei lansio i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2002. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2008 i ddeall effaith y fenter yn y tymor hir. Gwnaeth yr adroddiad

nifer o argymhellion eang, gan gynnwys yr angen i gynhyrchu canllawiau clir i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd ynghylch sut i gyflwyno 'Twf' i rieni, ac i ymestyn ei weithgarwch mewn canolfannau teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig.

Yn [Adroddiad Blynyddol Strategaeth Iaith Gymraeg 2014–15](#) Llywodraeth Cymru disgrifiwyd 'Twf' fel y 'prif gynllun' ym maes annog y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Cafodd ei weithredu ar draws gogledd a de-orllewin Cymru yn bennaf, er mwyn annog rhieni neu ofalwyr sy'n siarad Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Ym mis Mawrth 2016, dywedwyd fod y cynllun i gael ei ddisodli, ac ym mis Ebrill 2016 lansiodd Llywodraeth Cymru ei olynydd, 'Cymraeg i Blant'.

Gwrthdroi'r penderfyniad o dorri £200,000 i'r prosiect sy'n olynu TWF

Gwerth y contract 'Cymraeg i Blant', sef olynydd 'Twf' yw £500,000 y flwyddyn. Dyfarnwyd y contract i Mudiad Meithrin a fydd yn darparu gwasanaethau 'Cymraeg i Blant' ar lefel leol. Ym mis Gorffennaf 2016, dywedodd [Golwg 360](#) (ar gael yn Gymraeg yn unig) fod gan y cynllun newydd, Cymraeg i Blant, gyllideb o £200,000 yn llai na'i ragflaenydd 'Twf'.

Mae'r llythyr gan Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn nodi na ellir "cymharu'r" cynlluniau hen a newydd "yn uniongyrchol", gan fod 'Twf' yn cynnwys rôl o weithio gyda phartneriaid eraill ar lefel genedlaethol – swyddogion Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am yr elfen hon, yn ôl y Gweinidog. Mae [Adroddiad Blynyddol Strategaeth Iaith Gymraeg 2015–16](#) Llywodraeth Cymru yn datgan y canlynol am y cynllun newydd, 'Cymraeg i Blant':

Rheolir y cynllun ar y cyd rhwng Mudiad Meithrin a Llywodraeth Cymru. Bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â'r gwaith hyrwyddo cenedlaethol trwy nifer o bartneriaid, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, tra bod y Mudiad yn cynnal gweithgareddau ar lefel leol.

Yn ogystal â'r amser a dreulir gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid cenedlaethol eraill, mae'r Gweinidog yn datgan yn ei lythyr bod Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi "£130,000 eleni i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg".

Adfer parhad o'r cymorth yr oedd TWF yn ei gynnig

Fel yr adroddwyd, nid oedd 'Twf' yn gweithredu ar lefel genedlaethol. Roedd swyddogion Twf yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol yng Nghymru, gan weithredu ar draws 12 ardal awdurdod lleol. Dywedir bod swyddogion Cymraeg i Blant yn gweithio ar draws 14 ardal awdurdod lleol, a bod amryw o ffynonellau data wedi cael eu defnyddio i arwain y broses o ddewis yr ardaloedd lle y bydd swyddogion yn gweithio.

Nid yw'n glir o'r wybodaeth gyfredol, fodd bynnag, ym mha ardaloedd awdurdod lleol y mae swyddogion 'Cymraeg i Blant' ar hyn o bryd yn gweithio, ac a yw presenoldeb wedi'i gynnal o fewn yr ardaloedd awdurdod lleol fel y nodwyd gan y deisebydd.

Sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau hybu'r Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer nifer o sefydliadau, prosiectau a chynlluniau i gefnogi'r iaith Gymraeg. Ar gyfer 2017-18, dyrannwyd cyfanswm o £36.195 miliwn ar gyfer yr iaith Gymraeg yng [Nghyllideb Derfynol 2017-18](#). O'r swm hwn, dyrannwyd £29.231 miliwn i Gymraeg mewn Addysg, a dyrannwyd £6.964 miliwn i ariannu sefydliadau fel:

- Mentrau iaith;
- Yr Eisteddfod Genedlaethol ac
- Urdd Gobaith Cymru

ynghyd â chynlluniau a mentrau fel:

- Papurau Bro; a
- Grantiau Technoleg a Chyfryngau Digidol

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o fanteision addysg cyfrwng Gymraeg yn rhan ganolog o'r rhaglen 'Cymraeg i Blant'. Ers i'r rhaglen newydd ddechrau ym mis Ebrill 2016, dywedir bod rhyw 8,000 o blant wedi bod mewn sesiwn 'Cymraeg i Blant' yn barod.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-739
Ein cyf/Our ref ARD/05580/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

11 January 2017

Thank you for your letter to the Cabinet Secretary for Education regarding the petition submitted by Cymdeithas yr Iaith regarding 'Twf'. As Welsh-medium education is part of my portfolio, your letter has been passed on to me to respond.

This petition was presented to me in July 2016. A letter was sent at that time addressing the issues of concern to Cymdeithas and the signatories of the petition.

'Cymraeg i Blant' began in April 2016, and is the successor to 'Twf'. A contract valued at £500,000 per year was awarded to Mudiad Meithrin to deliver local 'Cymraeg i Blant' services. Unlike 'Twf', this does not include working with other partners on a national level – responsibility for this now lies with Welsh Government officials. The two programmes are therefore not directly comparable. As well as officials time spent working with the NHS and other national partners, we will also invest £130,000 this year to promote Welsh-medium education.

'Twf' did not operate on a national level – their officers focused on specific areas of Wales. 'Cymraeg i Blant' officers have been appointed in areas where evidence suggests there is an opportunity to achieve the greatest impact in numbers of children reaching Welsh-medium education. 'Twf' officers operated in 12 local authorities, whilst 'Cymraeg i Blant' officers are currently working in 14 local authorities. A number of data sources, including child population forecasts and parental surveys, were used in order to guide the process of selecting these areas, and they will be reviewed throughout the life of the project in order to ensure as many families as possible benefit from the support available.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The relationship has also been strengthened between the mentrau iaith, cylchoedd Ti a Fi and cylchoedd meithrin and, where relevant, 'Cymraeg i Blant' officers to ensure support is available to parents and prospective parents in all parts of Wales to use Welsh with their child.

Promoting and raising awareness of the advantages of Welsh-medium education is a central part of the 'Cymraeg i Blant' programme, and a budget has been allocated for this work. As well as this marketing work, information is also incorporated into existing programmes, including the Family Information Services, the Personal Child Health Record (also known as the 'red book') and maternity services to ensure clear and consistent messages are shared with parents about the advantages of bilingualism throughout the journey of raising a child.

Nearly 8,000 children and parents have already attended a 'Cymraeg i Blant' session since April 2016, and we are already considering how the programme will develop during 2017. I hope this information helps to show that encouraging and supporting parents and prospective parents to use Welsh with their child remains a priority for the Welsh Government, and is a core part of our aim to reach a million speakers by 2050.



Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

P-05-740 Deiseb i Warchod Ein Stryd Fawr.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sally Stephenson ar ôl casglu 939 llofnod ar lein â 729 llofnod papur.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod cynllun rhyddhad ardrethi trosiannol Llywodraeth Cymru yn annigonol o ran diwallu anghenion busnesau yr effeithir arnynt gan ailbrisiadau diweddaraf adeiladau, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn o fesurau rhyddhad ardrethi parhaol i ysgafnhau'r pwysau ariannol ar fusnesau bychain.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

Deiseb I Warchod Ein Stryd Fawr

Y Pwyllgor Deisebau | 14 Chwefror 2017

Petitions Committee | 14 February 2017

Briff Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-740

Teitl y ddeiseb: Deiseb I Warchod Ein Stryd Fawr

Testun y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod cynllun rhyddhad ardrethi trosiannol Llywodraeth Cymru yn annigonol o ran diwallu anghenion busnesau yr effeithir arnynt gan ailbrisiadau diweddaraf adeiladau, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn o fesurau rhyddhad ardrethi parhaol i ysgafnhau'r pwysau ariannol ar fusnesau bychain.

Bydd llawer o fusnesau bach yng Nghymru yn wynebu cau o ganlyniad i ardrethi busnes uwch oherwydd ailbrisiu gorfodol.

Bydd Rhyddhad Ardrethi Gwell i Fusnesau Bach ar gael yn Lloegr o Ebrill 2017 – gan ostwng cyfraddau a lliniaru effaith ailbrisiu.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y rhyddhad hwn ar gael i fusnesau yng Nghymru er mwyn diogelu ein Stryd Fawr.

Cefndir

Mae ailbrisiu ardrethi busnes fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd, ac mae Asiantaeth y Swyddfa Brisiu annibynnol wedi bod yn cynnal ymarfer ailbrisiu ardrethi busnes 2017 [ar ran Llywodraeth Cymru](#). Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod ailbrisiu yn niwtral o ran refeniw a'i fod yn aiddosbarthu atebolrwydd ardrethi busnes mewn ffordd sy'n adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo, yn hytrach na cheisio cynyddu'r refeniw a godir trwy ardrethi busnes. Ceir rhagor o fanylion am effaith ymarfer ailbrisiu 2017 yn [erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil o fis Rhagfyr 2016](#). Mae'r cynlluniau rhyddhad trosiannol a sefydlwyd mewn ymateb i'r ymarfer ailbrisiu drafft 2017 gan Lywodraeth Cymru wedi'u

hanelu at liniaru effaith negyddol yr ailbrisió ar fusnesau sydd wedi gweld cynnydd yn eu gwerth ardrethol.

O ran rhyddhad ardrethi busnesau bach, mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, [Symud Cymru Ymlaen](#), yn ymrwmo i 'dorri treth, gan arwain at filiau llai i 70,000 o fusnesau, a gostwng biliau ardrethi busnes i ddim ar gyfer hanner y cwmnïau cymwys.' O dan [gynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach presennol Llywodraeth Cymru](#), bydd eiddo busnes cymwys sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100% a'r rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar sail lleihau'n raddol o 100% i sero.

Mae'r [cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn Lloegr](#) ar hyn o bryd yn defnyddio'r un ystod o ran gwerth ardrethol â'r cynllun yng Nghymru. Fodd bynnag, [bydd yn cael ei ehangu o Ebrill 2017](#) fel bod eiddo busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 yn cael rhyddhad o 100% a'r rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £15,000 yn cael rhyddhad ar sail lleihau'n raddol o 100% i sero. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau gweithredol rhwng y cynlluniau yng Nghymru a Lloegr. Yn Lloegr, os oes gan fusnes fwy nag un eiddo, gall dderbyn rhyddhad ardrethi busnes bach ar y prif eiddo yn unig os yw'r gwerth ardrethol yn llai na £2,600 ond yng Nghymru nid oes cyfyngiad ar nifer yr eiddo bach y gall busnes gael rhyddhad arnynt. Mae lluosydd busnesau bach hefyd yn Lloegr, sy'n golygu bod busnesau bach yn talu llai o geiniogau yn y bunt mewn ardrethi busnes na busnesau mwy. Mae'r busnesau mwy yn talu lluosydd safonol sydd wedi ei osod ar lefel, sy'n rhannol yn ariannu cost y lluosydd busnesau bach. Bydd y trothwy gwerth ardrethol ar gyfer y lluosydd busnesau bach hefyd yn cael ei gynyddu o fis Ebrill 2017 er mwyn i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £51,000 yn talu'r lluosydd busnesau bach.

Roedd yr adroddiad [Datganoli Ardrethi Busnes i Gymru](#) a gynhyrchwyd gan y Panel Ardrethi Busnes i Lywodraeth flaenorol Cymru yn amcangyfrif y byddai cynyddu'r trothwyon rhyddhad ardrethi busnesau bach i'r lefel a fydd ar waith yn Lloegr yn costio £44 miliwn ychwanegol y flwyddyn ariannol.

Mae [cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach Llywodraeth Cymru](#) yn cynorthwyo mwy na 70 y cant o safleoedd busnes yng Nghymru, y mae dros hanner ohonynt yn talu dim ardrethi o gwbl. [Yn Lloegr](#), bydd hanner yr holl eiddo busnes yn cael rhywfaint o gymorth gan y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach a/neu'r lluosydd busnesau bach o fis Ebrill 2017.

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r [dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad a gyflwynwyd ym mis Hydref 2016 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#) yn nodi ei flaenoriaethau ar ardrethi busnes ar gyfer tymor y Cynulliad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y flaenoriaeth gyntaf, sef darparu sicrwydd a diogelwch i fusnesau bach i'w galluogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn hyderus, ac i adolygu'r system rhyddhad ardrethi busnesau bach cyfredol.

Ym mis Medi 2016 [cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#) y bydd y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach yn cael ei ymestyn hyd at 31 Mawrth 2018. Dywedodd hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach parhaol o 2018–19 ymlaen yn dilyn adolygiad o'r cynllun presennol.

Mae dau ryddhad trosiannol wedi eu cyhoeddi dros y misoedd diwethaf i liniaru effaith yr ailbrisió ar fusnesau y mae wedi effeithio'n negyddol arnynt. Bydd y cynllun cyntaf, [a gyhoeddwyd ym Medi 2016](#) ac [a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Rhagfyr 2016](#), yn darparu £10 miliwn o gyllid, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Bydd busnesau a chanddynt safleoedd ar hyn o bryd sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 ac sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach yn 2016–17, ond a fydd yn cael llai o ryddhad neu ddim rhyddhad yn 2017–18 oherwydd y cynnydd yng ngwerth ardrethol eu heiddo, yn elwa ar y cynllun hwn. Bydd y rhyddhad trosiannol arfaethedig yn lledaenu'r cynnydd mewn rhwymedigaeth mewn perthynas ag ardrethi busnes dros gyfnod o dair blynedd.

Yn dilyn hyn, ym mis Rhagfyr 2016 [cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#) fod £10 miliwn ychwanegol mewn rhyddhad trosiannol yn cael ei ddarparu yn 2017–18, wedi'i thargedu at drethdalwyr y stryd fawr fel siopau, tafarndai a chaffis, gan gynnwys y rhai sydd wedi gweld eu hardrethi yn cynyddu'n sylweddol yn sgil ymarfer ailbrisió ardrethi busnes 2017.

Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynhaliodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad ymchwiliad undydd i ardrethi busnes ym mis Hydref 2016, a [chynhyrchwyd adroddiad](#) gyda phum argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Ymatebodd Llywodraeth Cymru [i hyn ym mis Ionawr 2017](#), gan dderbyn pob un o'r argymhellion yn llawn neu mewn egwyddor. Mae'r prif argymhelliad sy'n ymwneud â'r ddeiseb hon yn ymwneud â gwella tryloywder a chysondeb ardrethi busnes, a

oedd yn nodi safbwyntiau gwahanol y Ffederasiwn Busnesau Bach a Llywodraeth Cymru ar p'un a yw parhad y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach presennol mewn gwirionedd yn doriad mewn treth.

Cafwyd hefyd nifer o ddadleuon diweddar yn y Cynulliad ar ardrethi busnes, yn canolbwyntio ar faterion gan gynnwys rhyddhad ardrethi busnesau bach, rhyddhad trosiannol a diwygio ehangach o ran ardrethi busnes. Cynhaliwyd dadleuon ar ryddhad ardrethi busnes a diwygio ar [23 Tachwedd 2016](#), materion ardrethi busnes sy'n effeithio ar fusnesau bach [ar 30 Tachwedd 2016](#), a'r rheoliadau yn cymeradwyo rhyddhad trosiannol [ar 13 Rhagfyr 2016](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-740
Ein cyf/Our ref MD/05640/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

5 January 2017

Den Mike,

Thank you for your letter of 15 December, regarding a petition from Sally Stephenson proposing that the Welsh Government should develop a package of permanent rate relief measures to alleviate the financial pressures on small businesses.

I am committed to supporting small businesses and have given careful consideration to targeted measures to help support small businesses in Wales adversely affected by the revaluation.

The current Small Business Rates Relief scheme (SBRR) in Wales was due to end on 31 March 2017, but it has been extended for a further year to provide small businesses with the certainty and security that this important source of support will continue. A permanent SBRR scheme will then be introduced from 2018 onwards and I will be using the coming year to review the operation of the current scheme so that we can target our investment to meet the needs of businesses in Wales and provide this support where it will have the most impact. I intend to consult widely throughout this process and would welcome the views of all interested parties and key stakeholders, to ensure that the scheme not only meets the needs of local communities but also maintains the vital source of local authority funding that non-domestic rates revenue provides.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 96

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I have also introduced a £10m transitional rate relief scheme to assist businesses currently in receipt of SBRR but which will be adversely affected by increases in their rateable value following the revaluation. This transitional relief will assist eligible ratepayers by enabling them to phase in any increases in the amount they have to pay over a three-year period. There will be no application process as the relief will be automatically applied to rate bills by local authorities. The relief is being fully funded by the Welsh Government, in contrast to the transitional arrangements being introduced by the UK Government which are financed by restricting decreases in liability for ratepayers whose rateable value is falling.

Following concerns raised by some ratepayers and stakeholders regarding the effect of the revaluation on some businesses, on 17 December I also announced that a further £10m will be made available to help high street retailers such as shops, pubs and restaurants with their non-domestic rates. This is in addition to the £10m transitional relief scheme. The relief will be available from 1 April 2017 and will be administered by local authorities. My officials will be working alongside local authorities to finalise the details on how the new relief scheme will operate and the full details will be available on the Welsh Government website in due course.

Taking into account SBRR, transitional relief and the other mandatory and discretionary reliefs the Welsh Government will be providing more than £210 million of financial assistance in 2017-18 which will assist three-quarters of all ratepayers in Wales and which many ratepayers in Cowbridge High will benefit from.

In terms of the enhanced SBRR scheme in England to which the petitioner also refers, it is important to understand there are fundamental differences in the tax base, distribution of businesses and average rateable value in Wales compared to those in England which need to be taken into consideration when designing relief schemes. The SBRR scheme in Wales already supports over 70% of properties meaning most businesses in Wales are already eligible for relief, and more than half pay no rates at all. This is quite different to England where the majority of businesses have a rateable value over £12,000 and even under the enhanced SBRR scheme to be introduced from 1 April 2017, only around a third of properties will pay nothing. The SBRR scheme in Wales is also fully funded by the Welsh Government rather than through a higher multiplier on larger businesses, as in England.

Best wishes,

Mark

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Mike Hedges AM
Chair of The Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

18 January 2017

Dear Mr Hedges,

Petition to Protect Our High Street - Business Rates

Please find enclosed the paper copies in support of the above petition. In total we have gathered 1,668 signatures - 939 online and 729 on paper.

This petition is part of a wider campaign calling on the Welsh Government to

- 1) help SMEs facing astronomical increases in their business rates bills when the new rateable values come into force in April;
- 2) develop a package of permanent rate-relief measures to alleviate the financial pressure on small businesses in Wales.

Business rates is a tax which has been fully devolved from Westminster to the Welsh Government. At the moment, business rates in Wales are calculated in broadly the same way as they are in England. However from April the situation will change, and not in Wales' favour.

The first issue we face stems from the recent revaluation of the rateable values of commercial properties across the UK. Many businesses have found that their rateable value is to be dramatically increased and as a result their business rates bill will rise astronomically in April. Rural market towns such as Cowbridge and Monmouth appear to have been hardest hit and this is seriously threatening the future viability of many high street businesses.

The second issue concerns the Small Business Rates Relief scheme. The UK Government has announced it will double the threshold below which small businesses will be exempt from business rates from £6k to £12k, and introduce tapered relief for those valued between £12k and £15k. Unfortunately the Welsh Government has chosen not to implement this policy, meaning that from April, all small businesses in Wales valued between £6k and £12k will still have to pay tax whilst their counterparts in England will be rates free. Those valued between £12k and £15k will have to pay the full amount and, unlike in England, will not benefit from any rate relief at all.

The combination of these two issues is understandably causing considerable concern in Wales, where small businesses make up more than 96% of the economy.

The Welsh Government has announced a three year transitional rates relief scheme and more recently, in response to the concerns we have raised, a further £10m support fund for those businesses facing significant increases in their rates bills. This will help many of them survive over the next 12 months whilst a new permanent business rates scheme is developed ready for April 2018.

Although this support is welcome, we do not believe these transitional arrangements go far enough and are calling on the Welsh Government to introduce a permanent Small Business Rates Relief scheme that is at least as good as, if not better than, the one being introduced in England in April 2017. It cannot be right that small businesses in Wales are knowingly being put at a significant competitive disadvantage to those over the border, especially by a Welsh Labour government which promised in its 2016 manifesto to “cut taxes for all small businesses”.

There are many small business owners and representatives in Cowbridge and Monmouth who have been fully engaged in this campaign and thoroughly understand the issues facing SMEs. We would therefore like to offer our help, advice and experience to the Welsh Government in order to shape the development of a new permanent Small Business Rates Relief scheme which will benefit all small businesses across Wales. We do hope that you will take us up on our offer and look forward to working with you.

Yours sincerely,

Sally Stephenson
Director

Mike Hedges AM
Chair of The Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

8 February 2017

Dear Mr Hedges,

Petition to Protect Our High Street - Business Rates

I have received the response from Mark Drakeford in response to the above petition.

As you know, this petition is part of a wider campaign calling on the Welsh Government to

- 1) help SMEs facing astronomical increases in their business rates bills when the new rateable values come into force in April;
- 2) develop a package of permanent rate-relief measures to alleviate the financial pressure on small businesses in Wales.

Alongside the covering letter which I presented to you when I formally handed over the petition on Wednesday 18 January, I would be grateful if the following points would also be considered by the Petitions Committee when they meet on Tuesday 14 February.

Rateable values are increasing dramatically

Following the recent revaluation of the rateable value of commercial properties across the UK, many Welsh businesses are facing an astronomical increase in their business rates from April. Rural market towns, such as Cowbridge and Monmouth, appear to have been hardest hit and this is seriously threatening the on-going viability of many businesses.

The Welsh Government is not increasing the threshold for SBRR

Business rates is a tax which has been fully devolved from Westminster to the Welsh Government. At the moment, business rates in Wales are calculated in broadly the same way as they are in England. However from 1 April the situation will change, and not in Wales' favour.

The UK Government has announced that from 1 April 2017 it will double the threshold below which small businesses will be exempt from business rates from £6k to £12k, and introduce tapered relief for those valued between £12k and £15k.

Unfortunately the Welsh Government has chosen not to implement this policy, meaning that all small businesses in Wales valued between £6k and £12k **will still have to pay rates whilst their counterparts in England will be rates-free.**

Those businesses valued between £12k and £15k will have to pay the full amount since, unlike in England, they will not benefit from any tapered rates relief at all.

To put it simply, from 1 April 2017 small businesses will be worse off in Wales under the devolved Welsh Government than they would be if they were under Westminster. The situation is even worse when compared to Scotland, where the SBRR threshold is being raised to £15k. SMEs in Wales are being left behind.

Welsh Labour's broken manifesto promise

During the Welsh Assembly elections last year, one of Welsh Labour's six manifesto pledges was "to cut taxes for ALL small businesses". Now they are in government, they are doing the exact opposite. Business rates is the only tax which the Welsh Government has the power to change, yet for many it is being increased dramatically.

We know from discussions in the Senedd that the Welsh Government's justification for not raising the SBRR threshold is that they need the revenue to pay for public services. In other words, small businesses in Wales are being penalised for being located on the wrong side of the River Severn and for having a devolved government. This is wholly unacceptable.

Additional £10m support announced in December

Before Christmas Mark Drakeford announced an additional £10m specifically for high streets which are facing huge increases in their business rates bills. We welcome this additional support, however nearly two months later he has still not clarified how and when this money will be allocated. With fewer than eight weeks until we start paying the new bills, many businesses still do not know how much they will have to pay. We cannot plan properly or make investment decisions whilst there is such uncertainty hanging over us. It must be resolved as a matter of urgency.

In his letter in response to the petition, Mark Drakeford mentions that three-quarters of rate payers will receive some form of relief. Please could you provide the data to back up this claim? We would particularly like to know, both for 2016/17 and from 2017 onwards, how many businesses in Wales fall into the different business rate bands - less than £6k, £6k-£12k, £12k-£15k, £15k-£51k, more than £51k - and how that compares to England.

Small businesses are the backbone of the Welsh economy

https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gdhPif_UwBYzMaHuzw

iii There is a considerable body of evidence on this subject. A summary of which we can make available if required.

iv Canoe Wales (formerly Welsh Canoeing Association – WCA) Archives

v https://dl.dropboxusercontent.com/u/62377602/Inquiry-into-Access-to-Inland-Water-in-Wales-Committee_Report-2010-06.pdf

vi https://dl.dropboxusercontent.com/u/62377602/Inquiry-into-Access-to-Inland-Water-in-Wales-Committee_Report-2010-06.pdf

vii http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_east/4030685.stm

viii http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_east/4030685.stm

ix <http://www.dailymail.co.uk/news/article-1029813/Canoeist-arrested-held-hours-DNA-taken--crime-paddling-river.html>

x <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/7535626.stm>

xi <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/row-over-river-dee-access-7731861>

xii <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-east-wales-36306201>

xiii Executive Summary of Church et al 2007 <https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gdhJfolxLXQXvN7jmQ>

xiv Church et al, 2007 Negotiating Recreational Access Under Asymmetrical Power Relations: The Case of Inland Waterways in England, Society and Natural Resources, 20:213-227 Full Paper.

<https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gdN7q6GnKOUvOOUBdQ>

xv LAND REFORM (SCOTLAND) BILL-EXPLANATORY NOTES (AND OTHER ACCOMPANYING DOCUMENTS)
http://www.scottish.parliament.uk/S1_Bills/Land_Reform_Scotland_Bill/b44s

P-04-499 Rhoi Hwb i Gwricwlwm yr Iaith Gymraeg

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid Cwricwlwm yr Iaith Gymraeg mewn ysgolion uwchradd; er mwyn annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ar ffurf sgyrsiol yn hytrach nag ar ddysgu Cymraeg i basio arholiad.

Gwybodaeth ychwanegol: Rydym ni, fel disgyblion mewn ysgol uwchradd yng Nghymru, yn credu nad yw'r system bresennol o ddysgu Cymraeg yn annog dysgu gydol oes ar gyfer bywyd go iawn y tu allan i'r ysgol. Credwn nad yw'r ffocws presennol ar basio arholiad yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r defnydd o Gymraeg go iawn ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn gadael yr ysgol ac yn anghofio'r rhan fwyaf o'r hyn maent wedi'i ddysgu yn ystod eu plum mlynedd o addysg uwchradd. Rydym eisiau i'r Cynulliad fynd i'r afael â'r mater o ddysgu Cymraeg gydol oes mewn ysgolion uwchradd Saesneg eu cyfrwng er mwyn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw ledled y wlad. Credwn fod angen gwneud y newid hwn cyn bo hir cyn bod difrod na ellir ei ddadwneud yn digwydd a bod yr iaith Gymraeg yn datblygu'n iaith ar gyfer arwyddion ffyrdd ac amgueddfeydd.

Prif ddeisebydd: Eva Bowers a Lauren Davies

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 24 Medi 2013

Nifer y llofnodion: 19

Eitem 3.15

P-05-724 – Hawliau i ofal iechyd sylfaenol yn Gymraeg

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cymdeithas yr Iaith ar ôl casglu 766 llofnod bapur.

Geiriad y ddeiseb

Galwn ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar y Safonau arfaethedig ym maes iechyd i gynnwys darparwyr gwasanaethau iechyd sylfaenol, megis meddygfeydd a fferyllfeydd, er mwyn sicrhau bod gan bobl hawliau cadarn a chyflawn yn y maes hollbwysig hwn.



Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

Deiseb P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn y Gymraeg

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2016 mewn perthynas â'r ddeiseb uchod, ac am y gwahoddiad i gyflwyno gwybodaeth neu sylwadau i'ch cynorthwyo wrth drafod y materion y codir yn y ddeiseb.

Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, cyflwynais adroddiad safonau mewn perthynas â'r sector iechyd at sylw Gweinidogion Cymru ar 29 Mai 2015. Fel rhan o'r adroddiad safonau hwnnw, cyflwynais y casgliad isod:

Gan mai gofal sylfaenol yw cyswllt cyntaf mwyafrif aelodau'r cyhoedd gyda'r gwasanaeth iechyd, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ymddygiad ieithyddol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ei gyfarwydd. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn. Daw'r Comisiynydd felly i'r casgliad bod angen safonau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Ymhellach i hynny, gallaf gadarnhau fy mod hefyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad y cynhaliodd Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft i'r sector iechyd rhwng Gorfennaf a Hydref y llynedd. Rwyf yn rhannu'r ymateb hwnnw â chi fel atodiad i'r llythyr hwn. Gobeithiaf fod yr uchod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi drafod y ddeiseb uchod ymhellach.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

GU K' PP.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg



Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

14/10/2016

Annwyl Weinidog,

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif [Y Sector Iechyd]) 2016

Diolch am y cyfle i gael ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r sector lechyd. Sylweddolaf faint cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd rhagddi gyda'r gwaith o'u drafftio, gan sicrhau bod y safonau a osodir ar y sector iechyd yn rai fydd yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu derbyn gwasanaethau iechyd yn Gymraeg. Fel y gwyddoch, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o ansawdd gofal, ac mewn nifer o achosion yn fater o angen, ac nid dewis.

Rwy'n cydnabod y gall ceisio cynnwys ymrwymiadau clir mewn rheoliadau gyflwyno heriau i'r Llywodraeth wrth iddi geisio sefydlu cysondeb yn yr hyn mae'r gyfraith am ei gymell mewn cysylltiad â defnyddio'r Gymraeg o fewn y sector lechyd. Yn ogystal â hynny, rwyf yn llwyr ymwybodol o'r angen i reoliadau adlewyrchu swyddogaethau'r cyrff yr ymdrinnir â hwy, a bo hynny'n anochel yn golygu y bydd newidiadau o un set o reoliadau i'r nesaf ble bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i mi ymhob achos beth yw'r rhesymeg tu ôl i'r newidiadau y gwelir yn y rheoliadau drafft yma o gymharu â'r setiau blaenorol. Rwyf wedi tynnu sylw at y rheiny ble bo'n berthnasol.

Mae fy sylwadau ar gynnwys y rheoliadau fel a ganlyn:-

Nodyn Esboniadol

Fel rhan o'r nodyn esboniadol sydd ynghlwm â'r rheoliadau drafft, fe gadarnheir bod y rheoliadau yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad nifer o gyrff sydd yn perthyn i'r sector lechyd. Mae'r rheiny yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG. Dylid nodi bod Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn berson a ddaw o fewn y categori o berson a enwir yn 'Awdurdodau Iechyd Arbennig' yn Atodlen 6 y Mesur.

Er fy mod yn cydnabod bod y rheoliadau yma yn pennu safonau i'r holl gyrff y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt, credaf fod lle i ddadlau y dylai Gweinidogion Cymru ystyried y graddau y dylai gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r holl gyrff a ddaw o fewn y cofnod 'Awdurdodau Iechyd Arbennig' e.e. *Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG*, a hynny er mwyn sicrhau ymagwedd gyson â'r holl gofnodion eraill perthnasol. Byddai hynny'n fy ngalluogi i osod safonau ar unrhyw gorff a ddaw o fewn y cofnod hwnnw, a hynny i'r graddau eu bod yn cyflenwi gwasanaethau i bersonau yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, cynhaliais ymchwiliad safonau mewn perthynas â Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, ynghyd â'r Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru rhwng Tachwedd 2014 a Chwefror 2015. Deallaf mai safbwynt Gweinidogion Cymru yw nad oes angen gwneud safonau yn benodol gymwys iddynt hwy, a hynny oherwydd yr ystyrir y bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â'r safonau y gosodir ar Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Ymhellach i hynny, deallaf y bydd hi'n ofynnol i'r adrannau isod gydymffurfio â'r safonau y caiff eu cyflwyno mewn hysbysiad gydymffurfio i'r Ymddiriedolaeth uchod.

- Gwasanaeth Gwaed Cymru
- Canolfan Ganser Felindre
- Canolfan Genedlaethol Cydweithredu dros Ganser (CGC-G)

Rwyf o'r farn y byddai'n fuddiol pe byddai'r rheoliadau yn nodi hynny'n glir, a hynny er mwyn osgoi unrhyw ddryswch wrth symud i weithredu Rhan 4 a 5 y Mesur.

Noda rheoliad 1 (9) a (10) y rheoliadau drafft yr isod:

Nid oes dim byd yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon mewn perthynas â gweithgaredd a gyflawnir ganddo neu wasanaeth a ddarperir ganddo pan fo'r gweithgaredd hwnnw'n cael ei gyflawni neu pan fo'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu ar ei ran gan ysbyty preifat yng Nghymru, ysbyty y tu allan i Gymru neu gan ddarparwr gofal sylfaenol.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Cymeraf mai'r bwriad tu ôl i'r rheoliadau yw eithrio'r safonau rhag bod yn gymwys i wasanaethau a ddarperir drwy drydydd parti gan y grwpiau hynny o bersonau. Fodd bynnag, gellid dehongli'r cymal uchod i olygu nad yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ysbytai preifat y tu allan i Gymru. Credaf y dylai Gweinidogion Cymru ystyried addasu'r cymal hwn, a hynny er mwyn sicrhau bod ystod y personau yr eithrir o'r is-ddeddfwriaeth yn gwbl eglur.

Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016

Wedi i'r rheoliadau iechyd gael eu cyflwyno a'u pasio yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fe'm hawdurdodir i roi hysbysiad cydymffurfio i'r personau hynny a enwir ynddynt. Fodd bynnag, fe ymddengys mai Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 fydd yn gymwys i'r cyrff proffesiynol lechyd, a hynny'n hytrach na'r rheoliadau sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn.

Er nad ydwyf yn gwrthwynebu'r penderfyniad hwnnw mewn egwyddor, a hynny gan ystyried swyddogaethau'r cyrff proffesiynol, credaf mai'r offeryn priodol ar gyfer gwneud hynny yw drwy orchymyn yn hytrach na'r rheoliadau yma. Gan na fydd y rheoliadau yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd yn effeithio ar y dyletswyddau y bydd yn ofynnol i gyrrff proffesiynol gydymffurfio â hwy, credaf y dylai Gweinidogion Cymru ystyried cyflwyno gorchymyn at ddibenion gwneud y safonau hynny'n benodol gymwys iddynt. Golyga hynny na fyddai oedi diangen yn y broses o osod safonau arnynt, a hynny drwy orfod aros i reoliadau terfynol gael eu llunio a'u cymeradwyo ar gyfer y cyrff iechyd eraill.

Ceir diwygiad yn nhudalen 10 y rheoliadau drafft sydd yn eithrio'r angen i'r Tribiwnlysoedd orfod cydymffurfio â safonau 167 i 168. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau sy'n ymdrin â materion atodol mewn perthynas â chadw cofnodion. Fel y gwyddoch, fe gyflwynais hysbysiadau cydymffurfio i bob un o'r tribiwnlysoedd sydd wedi eu henwi yn Rheoliadau (Rhif 4) 2016 ar 30 Medi. Yn gyntaf, nid yw'n glir i mi beth yw'r rhesymeg dros gynnwys yr eithriadau yma yn y rheoliadau. Deallaf fod trafodaethau wedi bod rhwng ein swyddogion, ac mai camgymeriad gweinyddol yw'r testun hwn. Byddai'n fuddiol pe bai Gweinidogion Cymru yn gallu cadarnhau hynny â mi, gan ystyried bod goblygiadau posibl o ran cynnwys hysbysiadau cydymffurfio sydd eisoes wedi eu cyflwyno i gyrrff.

Ymhellach i hynny, noda Rheoliad 4(1)(b) nad awdurdodir y Comisiynydd i'w gwneud hi'n ofynnol i rai cyrff gydymffurfio â safonau penodol. Yr unig gyrrff sydd yn eithriad i hynny ar

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English



hyn o bryd yw Cyngor Gofal Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Deallaf mai'r rhesymeg tu ôl i hynny yw'r ffaith nad oes unrhyw bresenoldeb gan y cyrff eraill yng Nghymru.

Fe fyddwch yn ymwybodol bod y rheoliadau yma, yn yr un modd â'r gweddill a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gymwys o ran Cymru. Gyda hynny mewn golwg, nid yw'n glir i mi pam bod detholiad o'r safonau yma wedi eu heithrio fel rhan o'r rheoliad hwn. Mae'r rheiny yn cynnwys nifer o safonau cyflenwi gwasanaethau a gweithredu ble gellid dadlau y dylai'r safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt, a hynny oherwydd nad ydynt yn ddibynnol ar leoliad daearyddol y corff.

Ymhellach i hynny, ceir cyfyngiadau ar rai safonau sydd yn gyd-ddibynnol ar safonau eraill. Un enghraifft o hynny yw'r cydberthynas rhwng safon 11 ac 14. Yn gyfreithiol, ni fyddai modd i mi osod safon 11 yn unol â'r tabl yn Atodlen 1, Rhan 2 y rheoliadau er fy mod wedi fy awdurdodi i wneud hynny. Yn yr un modd, os gosodir safon 14, mae disgwyl i mi fel Comisiynydd y Gymraeg osod safon 16. Ar hyn o bryd nid yw'r safon hwnnw wedi ei wneud yn benodol gymwys i'r cyrff perthnasol. Ceir goblygiadau tebyg mewn perthynas â'r cyrff fydd yn gymwys i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016.

Sylwadau Cyffredinol

Ystyr 'darpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd'

Croesawaf yr arweiniad a ddarperir gan y rheoliadau mewn perthynas â 'darpariaeth iechyd'. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe byddai modd i Weinidogion Cymru gynnwys enghraifft o'r math o ddarpariaeth a ddaw o fewn y diffiniad o 'darpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd' yn yr un modd ag y gwneir gyda'r diffiniad blaenorol.

Ystyr 'unigolyn'

Ar dudalen 6 y rheoliadau, fe nodir nad yw'r term 'unigolyn' yn cynnwys yr isod:

- (a) *aelod o'r cyhoedd sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cyflogai person; neu*
- (b) *aelod o'r cyhoedd i'r graddau y mae'n gweithio i berson;*

Hyderaf mai'r bwriad polisi yma yw sicrhau nad yw'r safonau yn berthnasol i unigolyn sy'n gweithio i gorff arall, pan fo'n gweithredu yn rhinwedd y swydd honno. Fodd bynnag, fe ymddengys bod isadran (b) yn golygu na fyddai'r safon yn gymwys i unrhyw unigolyn sy'n

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



gweithio i gorff arall. Ystyriaf hynny'n gyfyngiad gormodol, ac y dylai Gweinidogion Cymru ystyried priodoldeb y testun uchod wrth gyflwyno'r rheoliadau terfynol.

Nid yw'n eglur i mi ychwaith pam fod y dehongliad o "unigolyn" yn y rheoliadau yma'n wahanol i'r dehongliad a geir yn y rheoliadau safonau eraill.

Atodlen 1, Rhan 3 y Rheoliadau

Yng ngoleuni paragraff 32 o'r rheoliadau drafft, fe ymddengys fod paragraff 43 sy'n cyfeirio at safonau 33 ac 82 mewn cysylltiad ag argyfwng yn ddiangen.

Yn yr un modd, nid yw paragraff 47 yn ei gwneud hi'n eglur a yw deunydd hysbysebu a gynhwysir mewn dogfen, llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn wedi'u heithrio'n gyfan gwbl o'r safonau. Fe ymddengys nad yw hynny'n gyson â gweddill yr adran lle nodir y cymal isod:

(gweler safon 34 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff.)

Dylai Gweinidogion Cymru ystyried cywirdeb y testun uchod wrth gyflwyno'r rheoliadau terfynol.

Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff

Fe ymddengys bod newid yng ngeiriad Safon 4 y rheoliadau drafft i'r rheoliadau blaenorol, a hynny drwy gyfeirio at 'unigolyn' yn hytrach na 'pherson'. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r term 'person' yn ehangach nag aelod o'r cyhoedd, ac felly fe ymddengys bod ymgais yma i gyfyngu ar y gofyniad. Byddai'n fuddiol pe byddai eich swyddogion yn gallu cadarnhau ei rhesymeg tu ôl i'r newid hwn.

Safonau ynghylch galwadau ffôn i adrannau, ac i aelodau o staff corff

Nodaf nad yw'r safon sy'n ymdrin â delio a galwadau yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd wedi ei gynnwys yn y rheoliadau drafft. Dylid nodi bod y safon hon wedi ei gynnwys ymhob set o reoliadau blaenorol a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys rheoliadau mewn perthynas â'r gwasanaethau brys. Fel y gwyddoch, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg yr hyblygrwydd i osod un neu ragor o'r safonau a bennwyd mewn hysbysiad cydymffurfio, a hynny ar sail rhesymoldeb a chymesuredd. Byddai'n fuddiol pe byddai eich swyddogion yn gallu cadarnhau ei rhesymeg tu ôl i'r newid hwn.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau

Nodaf nad yw'r safon sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gorff lunio unrhyw ddogfen sydd at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg. Yn yr un modd a'r uchod, dymunaf dynnu eich sylw at y ffaith bod y safon hon wedi ei gynnwys ymhob set o reoliadau blaenorol a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n glir o fewn y ddogfennaeth ymgynghori beth yw'r rhesymeg tu ôl i drin y cyrff iechyd yn wahanol i'r cyrff sydd eisoes wedi eu cynnwys mewn rheoliadau.

Ymhellach i hynny, dylwn nodi nad ydwyf wedi gosod y safon hon ar bob un o'r cyrff a enwyd mewn rheoliadau blaenorol, a hynny ar sail rhesymoldeb a chymesuredd. Yn yr un modd, rwyf wedi gosod amgylchiadau ar y safon hon mewn rhai hysbysiadau, a hynny'n unol â darpariaethau adran 44(3) y Mesur. Credaf mai'r dull hwn o weithredu yw'r un mwyaf priodol, ac y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y safon yma wedi ei bennu yn y rheoliadau terfynol.

Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni

Fe ymddengys bod newid yng ngeiriad Safon 48 y rheoliadau drafft i'r rheoliadau blaenorol, a hynny drwy gyfeirio at 'unigolyn' yn hytrach na'r cyhoedd yn ehangach. Byddai'n fuddiol pe byddai eich swyddogion yn gallu cadarnhau ei rhesymeg tu ôl i'r newid hwn.

Ymhellach at hynny, dymunaf dynnu sylw at y ffaith bod y safon mewn perthynas â mewnosod gwybodaeth yn Gymraeg ar ffurflenni wedi eu hepgor o'r rheoliadau drafft. Nid yw'n eglur i mi beth yw'r rhesymeg tu ôl i hynny. Byddai'n fuddiol pe byddai Gweinidogion Cymru yn gallu cadarnhau'r bwriad tu ôl i'r newid hwn.

Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Nodaf fod ystyr 'derbynfa' at ddibenion safonau 60-63 wedi newid o gymharu â'r safonau cyfatebol mewn rheoliadau blaenorol. Mae paragraff 54 o'r rheoliadau yn nodi mai ystyr derbynfa yw 'ardal yn ysbytai, swyddfeydd a lleoliadau gwasanaeth corff lle croesawu personau yw prif rôl staff'. Fe ymddengys bod hynny'n cyfyngu ar yr ystyr sydd wedi ei gynnwys yn Rheoliadau (Rhifau 1, 2, 4 a 5). Nid yw'n eglur i mi o fewn y ddogfennaeth ymgynghori beth yw'r rhesymeg tu ôl i drin y cyrff iechyd yn wahanol i'r cyrff sydd eisoes wedi eu cynnwys mewn rheoliadau.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Ymhellach i hynny, nodaf fod safonau mewn perthynas â gwasanaeth derbynfa lle bo ymweliad neu apwyntiad wedi ei drefnu ymlaen llaw ddim yn ymddangos yn y rheoliadau yma. Byddai'n fuddiol pe byddai eich swyddogion yn gallu cadarnhau'r bwriad tu ôl i'r newid hwn.

Safonau ynghylch gofal sylfaenol

Mae safon 85 o'r rheoliadau drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau fod unrhyw ddogfen a lunnir mewn perthynas â gofal sylfaenol i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes safon gyfatebol i hynny mewn perthynas â ffurflenni a lunnir mewn perthynas â gwasanaethau gofal sylfaenol.

Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg

Croesawaf fod gofyniad o fewn y rheoliadau drafft ar gyrff i lunio a chyhoeddi polisi ar ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol, gan ystyried pa effeithiau y gallai penderfyniadau eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fe ymddengys bod camgymeriad yng ngeiriad 107A sydd yn cyfeirio at safon 106 yn hytrach na 107. Dylid sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn cyfeirio at y brif safon gysylltiedig.

Materion ehangach mewn perthynas â Gofal Sylfaenol

Cyflwynais adroddiad safonau at sylw Gweinidogion Cymru, gan ddod i gasgliadau ar ba safonau ddylai gael eu gwneud yn benodol gymwys i'r cyrff lechyd a enwir yn Atodlenni'r Mesur. Fel rhan o'r adroddiad hwnnw, fe nodais yr isod:

Gan mai gofal sylfaenol yw cyswllt cyntaf mwyafrif aelodau'r cyhoedd gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ymddygiad ieithyddol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn'. Daw'r Comisiynydd felly i'r casgliad bod angen safonau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Yn ychwanegol i hynny, lluniais gyfres o argymhellion at sylw Gweinidogion Cymru fel rhan o'm hymholiad i faes Gofal Sylfaenol, o dan Adran 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y rheiny'n cynnwys yr isod:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English



Gofynnaf i Weinidogion Cymru gymryd safiad polisi o blaid y model 'cynnig rhagweithiol' fel bod modd ei weithredu'n systematig ac yn effeithiol ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol, er mwyn sicrhau ansawdd profiad a chychwyn diogel i lwybr iechyd y claf.

Gofynnaf i Weinidogion Cymru a chyrrff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru sicrhau bod technoleg ac unrhyw ddatblygiadau technolegol i'r dyfodol yn ateb anghenion siaradwyr Cymraeg gan hwyluso darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol ddwyieithog.

Nid ydwyf yn ystyried bod safonau 83-97 o'r rheoliadau drafft yn mynd i'r afael â'r uchod yn ddigonol, nac ychwaith yn arwain at sicrhau sefyllfa lle bo modd i'r cyhoedd dderbyn gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg.

Deallaf fod y Llywodraeth yn ystyried y dull mwyaf priodol er mwyn gosod safonau ar y sector gofal sylfaenol, a hynny gan ystyried y casgliadau uchod ynghyd â'r berthynas contractio sydd rhwng y Byrddau Iechyd a'r darparwyr eu hunain. Mae eich dogfen ymgynghori yn nodi opsiynau gwahanol ar gyfer rhoi dyletswyddau ar ddarparwyr gofal sylfaenol. Eglurir eich bod yn ffafrio'r trywydd o roi dyletswyddau arnynt drwy osod safonau ar y Byrddau Iechyd, a bod hynny'n well opsiwn na'r trywydd o osod safonau yn uniongyrchol ar gannoedd o ddarparwyr. Edrychaf ymlaen at drafod eich casgliadau ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Hyderaf y bydd y sylwadau uchod o gymorth i chi wrth symud ymlaen gyda'r gwaith, ac edrychaf ymlaen at weld rheoliadau terfynol yn cael eu cyflwyno ar gyfer y sector hollbwysig hwn yn fuan.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.16

P-05-726 – Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ryan Dansie, ar ôl casglu llofnodion

Geiriad y ddeiseb

Oherwydd y pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried creu ymddiriedolaethau elusennol i gymryd drosodd y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Y brif fantais o drefniant o'r fath yw'r rhyddhad ardrethi y byddai gan elusen hawl i'w gael. Mae hyn gyfystyr â symud arian o'r gronfa ganolog o ardrethi annomestig ac i gyllideb yr awdurdodau. Nid oes unrhyw arian cyhoeddus yn cael ei arbed yn gyffredinol, er bod gorbenion sy'n gysylltiedig â sefydlu trefniadau o'r fath a all gynnwys gwneud taliadau i ymgynghorwyr preifat arbenigol.

Mae Cyngor Sir Penfro ar fin dechrau'r broses o greu elusen i gymryd drosodd y gwaith o redeg yr holl wasanaethau hamdden a diwylliannol yn y sir gyfan. Mae bron yn anochel y bydd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn gwneud yr un peth er mwyn ymdrin â'r pwysau amhosibl ar eu cyllidebau eu hunain.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i newid y rheolau rhyddhad ardrethi fel bod yr holl gyfleusterau hamdden a diwylliannol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn yr un modd ag elusen. Os na chaiff hyn ei wneud, collir yr incwm ardrethi busnes hwn o hyd drwy greu'r ymddiriedolaethau elusennol hyn, ond byddwn yn colli rheolaeth ar ein gwasanaethau cyhoeddus yn ddiangen yn y broses.

Dylid cael gwared ar y cymhelliant diangen hwn i allanoli ein gwasanaethau hamdden a diwylliannol pwysig. Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd, gellir damcaniaethu y byddai'r gymhareb cost a budd ariannol a fyddai'n deillio o'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn y rhanbarth yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth o leiaf yn ystyried y cynnig hwn.

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-726
Ein cyf/Our ref MD/05656/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

SeneddPetitions@assembly.wales

12 January 2017

Deur Mike,

Thank you for your letter of 21 December regarding future improvements to the non-domestic rates system.

My immediate priority for the NDR system is supporting small businesses. In 2017-18 this is being delivered through the extension of the £100 million Small Business Rates Relief scheme and the provision of transitional rate relief to assist those adversely affected by the revaluation.

I am also committed to introducing a new permanent Small Business Rates Relief scheme from 2018 onwards and will be using the coming year to review the operation of the current scheme so that investment can be better targeted to meet the needs of businesses in Wales. I intend to consult widely throughout this process and I welcome views to ensure that the scheme not only meets the needs of local communities, but also maintains the vital source of local authority funding that non-domestic rates revenue provides.

In the medium term, my focus will be on delivering administrative improvements to lessen the burden on ratepayers. This will include measures to tackle abuse within the system, to improve data-sharing and to reform the appeals process. These administrative changes will be developed with support from local authorities and key stakeholders and will be subject to consultation to provide all interested parties an opportunity to express their views.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 224

In the longer term, the Welsh Government intends to take steps to improve the local government finance system, including local taxation. There are opportunities to make the local tax liability across businesses, other ratepayers and households fairer. There are also steps which could be taken to simplify the system of local government funding so that people can understand and engage with how and where decisions are made about the funding and delivery of local services. As part of this, I will explore more wide-ranging and longer term reform of the local government finance system, looking internationally at the best examples. A working group of external experts has been established to provide advice and the Welsh Government is committed to open discussions about this work.

Best wishes,

Mark

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Eitem 3.17

P-05-727 – Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan UNISON Cymru Wales ar ôl casglu llofnodion

Geiriad y ddeiseb

Ers mis Ebrill 2016, mae Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru yn gorfod cofrestru â'r Cyngor Gweithlu Addysg – y corff sydd hefyd yn rheoleiddio athrawon a darlithwyr addysg bellach.

Eleni, y gwir ffi cofrestru a godwyd ar Weithwyr Cymorth Dysgu oedd £15. £45 oedd y ffi a godwyd ar staff dysgu a darlithio. Nid yw'r ffi a godir fis Ebrill 2017 yn glir eto. O ganlyniad i waith lobïo gan UNSAIN, cytunodd 12 o awdurdodau lleol i dalu'r ffi ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion yn 2016, naill ai'n llawn neu'n rhannol, gan gydnabod bod cyflogau'r gweithwyr hyn ymhlith yr isaf yn y sector cyhoeddus, yn bennaf oherwydd eu statws fel gweithiwr sy'n gweithio yn ystod tymor yn unig.

Hyd yma, mae cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymwneud yn bennaf ag athrawon a darlithwyr sy'n cael cyflogau llawer uwch na Gweithwyr Cymorth Dysgu.

Merched yw'r rhan fwyaf o Weithwyr Cymorth Dysgu, ac mae'r mwyafrif helaeth yn cael eu talu i weithio yn ystod y tymor yn unig, yn wahanol i athrawon a darlithwyr; mae eu cytundebau'n fwy tebygol o fod yn gytundebau am dymor penodol ac o fod ar drugaredd toriadau yng nghyllideb yr ysgol. Mae gan nifer ohonynt fwy nag un swydd eisoes.

Dylid cydnabod yr awdurdodau lleol hynny a ymrwymodd i dalu'r ffi'r llynedd. Ond, ar adeg pan mae cyllidebau'n tynhau o hyd, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff ei dalu ym mis Ebrill 2017. Rhaid clustnodi arian ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol i sicrhau nad oes disgwyl i Weithwyr Cymorth Dysgu ysgwyddo cost y ffi cofrestru fis Ebrill nesaf.

Oherwydd y rhesymau hyn, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i Glustnodi arian yn y setliad llywodraeth leol i ariannu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion ym mis Ebrill 2017

Dylid cael gwared ar y cymhelliant diangen hwn i allanoli ein gwasanaethau hamdden a diwylliannol pwysig. Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd, gellir damcaniaethu y byddai'r gymhareb cost a budd ariannol a fyddai'n deillio o'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn y rhanbarth yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth o leiaf yn ystyried y cynnig hwn.



Eich cyf/Your ref P-05-727
Ein cyf/Our ref KW/06400/16

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales

6 January 2017

Dear Mike

Thank you for your letter dated 21 December regarding the Education Workforce Council registration fees for learning support workers.

On 27 June 2016, the Welsh Government launched an 8 week consultation seeking the views on the proposals for the registration fee model from April 2017, for which all comments were taken into account to help and inform the development of a new set of regulations to be made under the Education Wales Act 2014; and which will be subject to the approval of the National Assembly by resolution within the coming weeks.

The proposed fee structure is set out below (it should be noted that the registration fee for all practitioners before the inclusion of any subsidy is £46), with the actual contribution paid by all practitioners remaining unchanged from last year.

Practitioner Group	Registration Fee	Subsidy*	Actual Contribution
School Teachers	£46	£1	£45
FE Teachers	£46	£1	£45
School LSW	£46	£31	£15
FE LSW	£46	£31	£15
WBL Practitioners	£46	£1	£45
Professional Youth Workers	£46	£1	£45
Youth Support Workers	£46	£31	£15

**All subsidies in this model will be paid to the Council via the Welsh Government.*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

This proposed model will continue to see lower earning practitioner groups (learning support workers and youth support workers) receiving a £31 subsidy towards their registration fee.

In setting the fee models for registrants there has been recognition that during these times of austerity and on-going pay freezes in the public sector, the Welsh Government has a duty to protect the education workforce from unnecessarily high fee levels. With this in mind the Cabinet Secretary for Finance and Local Government and I approved the transfer of £1million, with effect from 2017-18 (subject to the approval of the new fee regulations by the National Assembly), from the Revenue Support Grant to support the registration subsidy for all practitioners.

I believe that there have been clear benefits of registering this sector of the education workforce. It has enhanced their status and recognised that they play a vital and valued role in supporting teaching and learning. It also raises and maintains standards, as part of a single and coherent education workforce.


A link to the aforementioned consultation (supported by the majority of respondents), summary of responses and the associated Government response is enclosed

https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/160624-registration-fees-for-education-workforce-council-consultation-en.pdf

https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/161125_registrationfee_sfortheeducationworkforceinwales_summaryofresponses_en.pdf

I trust you find my response helpful.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Our ref:

Your ref:

When telephoning please ask for:



UNISON House
Custom House Street
Cardiff
CF10 1AP

Tel: 0800 0 857 857
Fax: 029 2038 7531
www.unison.org.uk/cymruwales
email: cymruwales@unison.co.uk

Tuesday 7 February, 2017

Dear Mike,

Thank you for the opportunity to respond to the correspondence you received from the Cabinet Secretary for Education, dated 6 January 2017.

UNISON is disappointed with the response from the Cabinet Secretary. The letter makes reference to a subsidy of £31 towards the registration fee. The fact remains, this subsidy is not guaranteed for future years and could be withdrawn at any stage – a point we made in our recent consultation response on Education Workforce Council (EWC) registration fees. Furthermore, the registration fee level has already increased, yet the subsidy level has remained the same – so school support staff are already worse off.

Whilst we welcome the transfer of £1 million from the Revenue Support Grant to support the registration subsidy for all practitioners, this does not fully address our concerns. School support staff, many of whom are low paid, have not previously been expected to pay for any form of registration, yet there is now the expectation for them to pay an annual expense in order for them to undertake their jobs – the simple implementation of a registration cost means school support staff are financially worse off.

Support staff have reported to us that any additional costs are a burden at a time when family budgets are already stretched and reliance on ‘in work’ benefits is higher than ever. We also have growing concerns about the use of zero hour contracts and agency staff in the education sector.

Tudalen y pecyn 230

Further to this, no distinction is made between full and part time members of staff. The 2015/16 Pupil Level Annual School Census for Wales shows that 51% of support staff work part-time compared to 19% of teaching staff. This highlights the disproportionate effect this decision will have on the lowest paid members of staff.

Additionally, we have ongoing concerns about the benefit school support staff get as a result of registration. It is important to note at this point, the EWC code of conduct to professional standards does not exist for school support staff. Therefore, the EWC is currently only able to provide a sub-standard service for support staff. The education system typically focuses on teaching staff – a situation UNISON sees repeatedly replicated in negotiations. This is a fundamental requirement of code of conduct that omits a significant proportion of the workforce. Without addressing the issues of disparity in the sector, there is no value to registering and so it is unreasonable to expect these workers to pay any level of registration cost, irrespective of subsidy.

UNISON also finds it very difficult to accept the Cabinet Secretary's comments:

"I believe there are clear benefits of registering this sector of the education workforce. It has enhanced their status and recognised that they play a vital and valued role in supporting teaching and learning. It also raises and maintains standards, as part of a single and coherent education workforce."

Our experience and that of school support staff generally across Wales is completely at odds with this statement and we would like to see the evidence regarding this point. Qualified teachers in schools and lecturers in further education benefit from nationally agreed terms and conditions, pay levels, progression and professional development which reflect their status. Pay levels for support staff remain low and don't recognise the level of professional commitment and dedication to their pupils that is expected of them in practice.

As noted above, there is no clarity in regard to professional boundaries of support staff roles, no professional standards, no clear structure, varied rates of pay, no standard job descriptions, and hundreds of job titles covering the same roles. Additionally, support staff have had limited access to training and development and what little that is available is susceptible to cuts.

We remain hopeful that registration will achieve the improvements the Cabinet Secretary has laid out in her letter and that there will be parity for all workers across the sector, but we are nowhere near meeting this aspiration.

In fact, this issue has been raised by UNISON once again the week commencing 30 January and addressed in a press release:

Responding to Cabinet Secretary Kirsty Williams AM's statement today on how school supply staff will be managed in future, Jess Turner, UNISON Cymru organiser for schools said,

"We believe that support staff make up to half of the supply workforce and they will feel the taskforce has completely ignored them with this announcement. To not be mentioned at all is a glaring omission which shows that despite the professional registration of teaching assistants and the crucial role all support staff play, they are again an afterthought in the education system.

"The task was to evaluate how the provision of supply staff to schools could be better managed in future and this report has failed to properly answer that question.

"This report goes against the spirit of social partnership. Even though UNISON was asked to meet with the taskforce to discuss this, there is no mention of a single one of the recommendations we made."

ENDS

An example of support staff supply work can be found on this link to the New Directions website. <http://www.new->

directions.co.uk/education/jv_office/cardiff/ Seven out of ten jobs on page one are all support staff roles yet they are not addressed in the report on school supply staff.

Lastly, we are aware that many local government workers who are required to professionally register have the cost of registration met by the employer – examples include town planners, social workers, and human resource professionals. We firmly believe this benefit should be extended to school support staff, who are also local authority employed, especially given that the workforce is dominated by low paid, part-time, women workers.

I hope you find this response helpful.

Yours sincerely,

Jess Turner
UNISON Cymru/Wales schools lead

Eitem 6

P-05-710 – Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Whizz-Kidz, Cardiff Ambassador Club, ar ôl casglu 22 llofnod ar lein a 75 llofnod bapur = 97 llofnod

Geiriad y ddeiseb

Un o'r prif bryderon ar gyfer pobl sy'n gofalu am bobl ag Awtistiaeth yw'r diffyg dealltwriaeth gan athrawon ac eraill sy'n gweithio yn y proffesiwn addysg.

Tra bod addysgu yng Nghymru o ansawdd uchel, gellid gwneud gwelliannau o ran codi ymwybyddiaeth o Awtistiaeth, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin mae wedi dod yn y gymdeithas. Cynigir, fel rhan o'r adolygiad hyfforddi athrawon Saesneg, bydd Anghenion Addysgol Arbennig, gan gynnwys Awtistiaeth yn rhan allweddol o hyfforddiant athrawon yn Lloegr. Rhaid i'r adolygiad o

Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru sicrhau bod athrawon yn cael hyfforddiant penodol a statudol o ran cefnogi pobl ag Awtistiaeth fewn amgylchedd yr ysgol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- N/A